RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
16/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/03/2020

# Gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): profiadau a deilliannau

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-177-3

Gwerthusiad o’r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Einir Burrowes, Dateb / OB3
Nia Bryer, OB3
Dr Duncan Holtom, Pobl a Gwaith

Adroddiad Ymchwil Llawn: *Gwerthusiad o’r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): profiadau a deilliannau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 16/2020
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-prosiect-rhieni-gofal-plant-chyflogaeth-profiadau-deilliannau

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Launa.Anderson@llyw.cymru
Ffôn: 0300 025 9274

# Cynnwys

**Rhestr o’r Tablau** ... 3
**Rhestr o’r Ffigurau** ... 3
**Geirfa** ... 4
**1. Cyflwyniad** ... 5
Y Dull ... 6
*Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â nodau'r elfen yma o'r gwerthusiad* ... 7
Strwythur yr adroddiad hwn ... 8
**2. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn** ... 9
Cyflwyniad ... 9
Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu ... 9
Cysylltiadau yn ôl ardal awdurdod lleol ... 10
Cysylltiadau fesul grŵp o gyfranogwyr targed ... 10
*Rhyw* ... 10
*Oedran* ... 11
*Ethnigrwydd* ... 12
*Anableddau neu anhwylderau iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio* ... 12
*Aelwydydd un oedolyn* ... 13
*Lefel cymwysterau* ... 13
*Y Gymraeg* ... 14
Perfformiad yn erbyn y prif dargedau deilliant ... 14
*Deilliannau swyddi* ... 14
*Cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd* ... 18
*Deilliannau profiad gwaith/gwirfoddoli* ... 19
*Deilliannau addysg neu hyfforddiant* ... 19
**3. Profiadau'r Cyfranogwyr: Themâu sy'n Codi** ... 20
Cyflwyniad ... 20
Canfyddiadau allweddol y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn ... 20
Y themâu a gododd o'r gwaith maes a gyflawnwyd yn 2019 ... 23
*Thema: natur y swyddi a gymerwyd* ... 23
*Thema: ansicrwydd rhai swyddi lefel isel* ... 24
*Thema: dychwelyd i swyddi tebyg* ... 26
*Thema: gostwng dyheadau am y tro* ... 27
*Thema: oriau gwaith* ... 28

*Thema: enillion a dibyniaeth ar gredydau treth* ........ 30
*Effeithiau posibl newidiadau i fudd-daliadau* ........ 30
*Thema: economi gofal plant cymysg* ........ 35
*Thema: Y Cynnig Gofal Plant* ........ 36
**4. Y Gwahaniaeth a Wnaed gan PaCE a'r Achos Gwrthffeithiol** ........ 40
Cyflwyniad ........ 40
Deilliannau Swyddi ........ 40
*Thema: cynaliadwyedd cyflogaeth* ........ 45
Symud i mewn i Addysg/Hyfforddiant ........ 46
Cymwysterau neu Ardystiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith a Gyflawnwyd ........ 48
Deilliannau o ran profiad gwaith/gwirfoddoli ........ 49
**5. Casgliadau ac Argymhellion** ........ 51
Cyflwyniad ........ 51
Perfformiad y rhaglen hyd yn hyn ........ 51
Profiadau'r cyfranogwyr a'r gwahaniaeth a wnaeth PaCE ........ 53
Priodoli deilliannau PaCE a'r gwrthffeithiol ........ 57

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 2.1 Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul ardal .......... 15

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 2.1 Perfformiad hyd yn hyn: cysylltiadau ........................................................ 8

Ffigur 2.2 Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr.......................................................... 11

Ffigur 2.3 Cyfranogwyr fesul eu cymwysterau uchaf adeg cychwyn ........................ 13

Ffigur 2.4 Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul blaenoriaeth ............................................................................................... 14

Ffigur 2.5 Cyfran y cyfranogwyr a symudodd i mewn i gyflogaeth fesul oedran....... 16

Ffigur 2.6 Deilliannau swyddi fesul lefel cymhwyster adeg cychwyn........................ 17

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| BAME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| BOCs | Cyfrifiadau Gwell eich Byd |
| CACHE | Y Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal Addysg ac Iechyd |
| FfCChC | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru |
| CV | Cwricwlwm Vitae |
| DBS | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| EW | Dwyrain Cymru |
| FSF | Cronfa Gymorth Hyblyg |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| B1 | Blaenoriaeth 1 |
| B3 | Blaenoriaeth 3 |
| UC | Credyd Cynhwysol |
| WWV | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2018, penododd Llywodraeth Cymru OB3, Dateb, a Phobl a Gwaith i gyflawni gwerthusiad o'i menter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), sef darpariaeth marchnad lafur weithgar (ALMP) a gynorthwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

1.2 Lansiwyd PaCE yn 2015, a phennodd yr adroddiad gwerthuso cychwynnol, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2016[1] gyd-destun y rhaglen, disgrifiodd y Theori Newid a fyddai'n gosod y sylfaen ar gyfer PaCE, a thrafododd y canfyddiadau cynnar o gylch prosesau'r rhaglen a phrofiadau'r cyfranogwyr o PaCE.

1.3 Cyhoeddwyd adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn yn Rhagfyr 2018[2]. Roedd yr adroddiad yma'n ystyried strwythur y rhaglen, gan drafod proffil y cyfranogwyr a gysylltwyd (gan gynnwys y rhwystrau i waith roeddent yn eu hwynebu), a disgrifio siwrneiau'r cyfranogwyr trwy PaCE a deilliannau'r rhaglen a oedd yn dechrau dod i'r amlwg bryd hynny.

1.4 Bwriad yr adroddiad hwn yw edrych yn fanylach ar brofiadau cyfranogwyr o PaCE, clustnodi'r gwahaniaeth a wnaeth cymryd rhan yn y rhaglen i'r cyfranogwyr, ac amlygu'r gwersi y gellir eu dysgu i fwydo darpariaeth ac arferion at y dyfodol. Nodau penodol y rhan yma o'r rhaglen werthuso yw:

- Clustnodi'r rhesymau dros y gwahaniaethau ymddangosol mewn perfformiad ar draws ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol.
- Asesu effeithiolrwydd y rhaglen wrth gynorthwyo pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Archwilio pa wahaniaeth y mae PaCE wedi ei wneud, gan amlygu'r gwersi y gellir eu dysgu o brofiadau'r cyfranogwyr.
- Rhoi cipolwg ar yr achos gwrthffeithiol.
- Datblygu astudiaethau achos ar lefel cyfranogwyr.

[1] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso'r broses
[2] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso ar y broses a'r allbynnau

1.5 Cyflawnir gwerthusiad o Effaith, y Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian yn 2021[3], a chyhoeddir adroddiad gwerthuso crynodol terfynol yn gynnar yn 2022.

**Y Dull**

1.6 Roedd y rhan yma o'r rhaglen werthuso (a gyflawnwyd rhwng Mai a Thachwedd 2019) yn cwmpasu pum prif elfen o waith:

- Dadansoddi'r gronfa ddata o gyfranogwyr a ddiweddarwyd ym mis Mai 2019, ac eto yn Awst 2019.
- Cyflawni cyfweliadau ffôn pellach â 45[4] o gyfranogwyr PaCE a gafodd gyfweliadau wyneb yn wyneb â ni yn 2018 er mwyn clywed sut roedd eu sefyllfaoedd wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr unigolion yma wedi cytuno adeg y cyfweliadau yn 2018 y gallai aelodau'r tîm ymchwil gysylltu â nhw'n uniongyrchol eto i gyflawni cyfweliadau pellach.
- Cyflawni cyfweliadau ansoddol (y rhan fwyaf ohonynt wyneb yn wyneb) gyda 44 o gyfranogwyr a oedd wedi dod i gysylltiad â PaCE yn 2018. Codwyd sampl o gyfranogwyr ar hap o 10 ardal awdurdod lleol lle nad oedd gwaith maes eisoes wedi cael ei gyflawni gyda'r cyfranogwyr. Cysylltodd aelodau o'r tîm ymchwil â'r unigolion, ac roedd cynghorwyr PaCE wedi cael gwybod pa gyfranogwyr a ddewiswyd fel bod modd iddynt gadarnhau dilysrwydd y ceisiadau am gyfweliad petai'r cyfranogwyr yn dod i gysylltiad â nhw. Mae'r dull yma o weithredu o ran gwahodd cyfranogwyr i gyfrannu at yr astudiaeth ychydig bach yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn 2018, pan fu'r tîm ymchwil yn gweithio gyda'r cynghorwyr i annog cyfranogwyr dethol i gyfrannu at yr astudiaeth. Roedd cyfran is o'r bobl a gafodd gyfweliadau wrthi'n cymryd rhan yn PaCE nag yr oedd yn wir yn 2018, a hynny o bosibl am fod y cynghorwyr yn chwarae llai o ran yn y broses nag y gwnaethant yn 2018.

[3] Mae hyn ychydig bach yn wahanol i'r amserlen a nodwyd yn y Gwerthusiad a Brosesau ac Allbwn, a hynny am yr estynnwyd PaCE hyd Mawrth 2022 erbyn hyn.
[4] Y bwriad oedd cyfweld â 40 o unigolion, ond llwyddwyd i ddenu gwell cyfradd ymateb nag a ragwelwyd o blith y rhai a oedd wedi cael cyfweliadau eisoes.

- Dadansoddi canfyddiadau'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd, clustnodi'r themâu oedd yn codi o hynny a dewis esiamplau 'astudiaeth achos' i dystiolaethu'r themâu hynny.
- Llunio'r adroddiad, a chael adolygiad cymheiriaid o'r adroddiad Gwerthuso Profiadau a Deilliannau.

*Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â nodau'r elfen yma o'r gwerthusiad*

1.7 Mae'r sylw a roddwyd i brofiadau cyfranogwyr yn ystod y rhan yma o'r gwerthusiad wedi caniatáu i ni gyfoethogi ein dealltwriaeth o ran i bwy y mae PaCE yn gweithio, sut a pham. Mae'n bwrw goleuni pellach hefyd o ran i bwy nad yw'r rhaglen yn gweithio cystal, a pham.

1.8 Fodd bynnag, mae'r ffocws ar gyfranogwyr ar draws 10 ardal awdurdod lleol yn golygu taw cip cyfyngedig yn unig a gafwyd ar y rhesymau dros wahaniaethau mewn perfformiad ymddangosol o un ardal i'r llall. Er bod ein gwaith maes wedi cadarnhau'r rhesymau dros y gwahaniaethau fel y'u disgrifiwyd yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn, nid oedd yn clustnodi rhesymau eraill na rhai newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y lefel uchel o gysondeb o ran y dulliau o weithredu a ddefnyddiodd y cynghorwyr (fel a nodwyd yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn) a'r diffyg gwahaniaethau systemig o ran dulliau o gyflawni rhwng un ardal a'r llall.

1.9 Mae Pennod 2 yn ystyried pa mor effeithiol yw'r rhaglen wrth gysylltu a denu unigolion â nodweddion gwarchodedig. Mae ein dadansoddiad o'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod yna feysydd o berfformiad sy'n gryf ac eraill sydd i'w gweld yn wannach ar draws y gwahanol grwpiau. Fodd bynnag, mae nifer y cyfranogwyr â nodweddion gwarchodedig penodol (e.e. unigolion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig [BAME], dynion a siaradwyr Cymraeg) yn gyfyngedig, ac roedd hi'n anos cysylltu cyfranogwyr o grwpiau BAME yn ein gwaith maes ansoddol. Mae hynny'n golygu na fu modd asesu i unrhyw sicrwydd sut a pham mae profiadau rhai mathau o unigolion wedi bod yn wahanol i rai'r cyfranogwyr PaCE yn gyffredinol.

1.10 Er y dewiswyd sampl o gyfranogwyr ar hap ar gyfer y cyfweliadau, mae'n bosibl bod y dull o weithredu a ddefnyddiwyd i gysylltu cyfranogwyr wedi cyflwyno rhyw lefel o duedd dethol i’r broses, gan roi gogwydd cadarnhaol ar ganfyddiadau ein gwaith maes. Mae hi'n bosibl bod yr unigolion a gafodd brofiadau cadarnhaol o PaCE neu a gafodd y budd mwyaf o'r rhaglen, yn fwy tebygol o gyfranogi (oherwydd mewnbwn y cynghorwyr yn 2018 a hunan-ddetholiad yn 2019) na’r unigolion a drodd eu cefn ar y rhaglen yn gynnar neu na fanteisiodd rhyw lawer arni.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.11 Cyflwynir yr adroddiad mewn pum pennod fel a ganlyn:

- Pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad.
- Pennod dau: perfformiad y rhaglen hyd yn hyn (gan gynnwys mewn perthynas â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig).
- Pennod tri: profiadau'r cyfranogwyr: themâu sy'n codi.
- Pennod pedwar: y gwahaniaeth a wnaed i'r cyfranogwyr a'r gwrthffeithiol.
- Pennod pump: casgliadau ac argymhellion.

## 2. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn


### Cyflwyniad

2.1 Rhoddodd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn ddadansoddiad manwl o berfformiad y rhaglen hyd Mai 2018. Bwriad y bennod hon yw cynnig diweddariad ar berfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu a deilliant. Mae'n adrodd hefyd ar berfformiad y rhaglen mewn perthynas â'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

### Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu

2.2 Erbyn Awst 2019, roedd cyfanswm o 4,447 o bobl wedi cysylltu â PaCE. Mae Ffigur 2.1 yn cymharu niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 sy'n cymryd rhan yn PaCE â'r targedau cysylltu diwygiedig[5]. Cyrhaeddodd nifer y cyfranogwyr 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) a gysylltwyd lefel o 94 y cant o'r targed a bennwyd, a pherfformiad gwannach na'r disgwyl yn Nwyrain Cymru oedd i gyfrif yn bennaf am y diffyg hwnnw. Drwyddi draw, roedd niferoedd y cyfranogwyr 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) a gysylltwyd yn gyson â'r disgwyliadau, ond rhagorodd nifer y cysylltiadau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig bach ar y disgwyliadau, tra bod y niferoedd ar gyfer Dwyrain Cymru ychydig bach yn brin o'r hyn a ddisgwyliwyd.

**Ffigur 2.1: Perfformiad a thargedau hyd Awst 2019: cysylltiadau**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr ar 31 Awst 2019

[5] Diwygiwyd y targedau ar gyfer cysylltiadau a deilliannau i adlewyrchu cylch oes hirach y rhaglen adeg ei ymestyn yn gynnar yn 2019.

**Cysylltiadau yn ôl ardal awdurdod lleol**

2.3 Fel y gwelsom yn 2018, mae niferoedd y cyfranogwyr a gysylltwyd yn amrywio'n sylweddol o un ardal awdurdod lleol i'r llall. Awgrymodd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn bod hynny'n rhannol oherwydd pryd y lansiwyd y rhaglen yn y gwahanol ardaloedd a ffactorau eraill fel ansawdd y perthnasau oedd yn bodoli rhwng y cynghorwyr a hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith, i ba raddau yr oedd PaCE yn integreiddio â seilweithiau cymorth teuluol ehangach, faint o waith a gyflawnwyd allan yn y gymuned, a throsiant y cynghorwyr.

2.4 Mae cysylltiadau cronnol, yn berthynol i faint y boblogaeth o bobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn ardal pob awdurdod lleol[6], yn dal i fod ar eu huchaf yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, lle lansiwyd PaCE yn gyntaf. Y tu hwnt i'r ardaloedd hynny, mae nifer y cysylltiadau (yn berthynol â maint y boblogaeth sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar) wedi bod yn gryfach yn Nhor-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwynedd ac Ynys Môn. Yng Nghaerffili a Chaerdydd y mae'r cysylltiadau wedi bod ar eu gwannaf yn nhermau perthynol.

**Cysylltiadau fesul grŵp o gyfranogwyr targed.**

2.5 Y tu hwnt i'r ddau brif grŵp y mae PaCE am eu cynorthwyo (pobl 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar a phobl ifanc sy'n NEET), ni phennwyd unrhyw dargedau cysylltu penodol ar gyfer is-grwpiau penodol o unigolion sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Yma, fodd bynnag, rydyn ni'n cynnig sylwebaeth ar gyfranogaeth fesul grŵp â nodweddion gwarchodedig.

*Rhyw*

2.6 Drwyddi draw, menywod oedd i gyfrif am 95 y cant o gyfranogwyr PaCE. Roedd 94 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn fenywaidd a 98 y cant o'r rhai Blaenoriaeth 3. Menywod oedd i gyfrif am gyfran ychydig bach yn uwch o'r cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda 97 o gymharu â 95 y cant. Mae'r anghydbwysedd yma rhwng y

[6] Yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Mehefin 2018/canfyddiadau'r Arolwg o'r Llafurlu.

rhywiau'n adlewyrchu cyfradd uwch o weithgarwch economaidd yn gyffredinol ymysg dynion na menywod[7] a'r ffaith fod cyfran is o fenywod â phlant dibynnol na dynion â phlant dibynnol yn gweithio[8]. Mae Eitem 2.13 isod yn awgrymu hefyd hwyrach nad yw PaCE yn denu tadau sengl i'r fath raddau ag y gallai.

2.7 Er bod y niferoedd yn isel drwyddi draw, roedd cyfran ychydig bach yn uwch o'r cyfranogwyr yn ddynion yn Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Ceredigion, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd. Diddorol yw nodi bod pump o'r ardaloedd hyn ymysg y saith lleoliad lle mae cynghorwyr gwrywaidd yn gweithio (yn ogystal â rhai benywaidd). Fodd bynnag, nid yw'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn caniatáu ar gyfer clustnodi pwy yw cynghorwyr cyfranogwyr unigol, ac felly nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau pendant o ran unrhyw gysylltiad rhwng bodolaeth cynghorwyr gwrywaidd a chysylltu cyfranogwyr gwrywaidd.

*Oedran*


2.8 Mae tri chwarter o'r holl gyfranogwyr wedi bod yn 20-34 oed, gyda'r mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn disgyn i'r grŵp 20-24 oed. Mae Ffigur 2.2 yn dangos dosbarthiad cyfranogwyr PaCE ar draws gwahanol grwpiau oedran. Roedd gan gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd broffil oedran ychydig bach yn iau na'u tebyg yn Nwyrain Cymru, er taw ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna mewn gwirionedd. Yn gyferbyniol, roedd proffil oedran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru ychydig bach yn iau na'r rhai yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.9 Mae'r proffil hwn yn awgrymu bod cyfranogwyr PaCE ychydig bach yn iau na rhieni'n gyffredinol ar draws Cymru a Lloegr. Oedran cyfartalog menywod yng Nghymru a Lloegr wrth ddod yn fam am y tro cyntaf oedd bron i 29 oed yn 2017, ac roedd 14 y cant o'r holl enedigaethau i famau 20-24 oed, 28 y cant i famau 25-29 oed a 32 y cant i famau 30-34 oed[9].

---

[7] Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol, Ystadegau Economaidd Allweddol: Mawrth 2019, t.7.
[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Teuluoedd a'r farchnad lafur: y DU: 2019.
[9] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion genedigaethau yng Nghymru a Lloegr: 2017.

**Ffigur 2.2: Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

*Ethnigrwydd*

2.10 Roedd tri y cant o'r cyfranogwyr yn dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME), sydd ychydig bach yn is na'r pump y cant o boblogaeth Cymru sy'n dod o gefndiroedd nad ydynt yn gefndiroedd gwyn[10]. Roedd y gyfran o gyfranogwyr o gefndiroedd BAME yn uwch yn Nwyrain Cymru (pump y cant) nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (dau y cant), ond hyd yn oed yn Nwyrain Cymru, roedd y gyfran o gyfranogwyr BAME yn is na'r 8 y cant a welir ar draws poblogaeth y rhanbarth.

2.11 Er bod yna dangynrychiolaeth o gyfranogwyr o gefndiroedd BAME yn y rhan fwyaf o ardaloedd, eithriad nodedig oedd Caerdydd, gyda bron i chwarter y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn dod o grwpiau BAME, o gymharu â rhyw 16 y cant o boblogaeth y ddinas.

*Anableddau neu anhwylderau iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio*

2.12 Drwyddi draw, roedd gan ryw 13 y cant o'r cyfranogwyr anableddau neu anhwylderau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, er bod y gyfran hon ychydig bach yn uwch ymysg y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (14 y cant) na'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (naw y cant). Mae'r gyfran o gyfranogwyr ag

[10] Stats Cymru, Arolwg y Gweithlu Lleol/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ethnigrwydd fesul awdurdod lleol yng Nghymru, Medi 2019

anableddau neu anhwylderau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn uwch yn y ddau ranbarth nag y mae hi ar draws y boblogaeth ar led (3.4 y cant[11]).

*Aelwydydd un oedolyn*


2.13 Roedd rhyw 83 y cant o'r cyfranogwyr yn byw ar aelwydydd un oedolyn, sy'n sylweddol uwch na'r 15 y cant o deuluoedd un oedolyn sydd yna o blith yr holl fathau o deuluoedd ar draws Cymru gyfan[12]. Roedd y gyfran sy'n byw ar aelwydydd un oedolyn ar draws Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn uwch yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Menywod oedd i gyfrif am 97 y cant o'r cyfranogwyr oedd yn byw ar aelwydydd un oedolyn, sy'n awgrymu efallai bod tadau sengl, sydd i gyfrif am ryw 10 y cant o'r rhieni sengl yng Nghymru[13], yn cael eu tangynrychioli ymysg cyfranogwyr PaCE, a bod hyn yn cyfrannu at yr anghydraddoldeb yn y rhywiau y cyfeiriwyd ato yn eitem 2.6 uchod.

*Lefel cymwysterau*

2.14 Mae Ffigur 2.3 isod yn dangos y gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 oedd â chymwysterau uwch a hyd at lefel 2[14] wrth gychwyn gyda PaCE. Mae'n dangos nad oedd gan 67 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, ac 83 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, unrhyw gymhwyster dros lefel 2, ac ystyrir felly bod ganddynt lefel isel o sgiliau yn ôl y diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer PaCE[15]. Yn yr un modd, roedd gan gyfran uwch o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (32 y cant) na'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (17 y cant) gymwysterau lefel 3 neu'n uwch wrth ymuno â PaCE. Ar draws y ddwy flaenoriaeth, roedd cyfran ychydig bach yn uwch o'r cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn disgyn i'r categori hwn.

[11] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Niferoedd y bobl ag anableddau, gan ddefnyddio 'anabledd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yn unig'.
[12] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Teuluoedd ac aelwydydd yn y DU: 2019.
[13] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Yr Arolwg o'r Llafurlu, Teuluoedd yn ôl math o deulu a phresenoldeb plant.
[14] Mae cymwysterau Lefel 2 gyfwerth â phedwar neu bump TGAU â graddau A*-C.
[15] Mae'r Canllawiau Gweithredol yn datgan 'na fyddai gan berson â sgiliau isel gymhwyster dros lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)', t. 19.

**Ffigur 2.3: Cyfranogwyr yn ôl lefel eu cymwysterau uchaf adeg cychwyn**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

*Y Gymraeg*

2.15 Yn yr un modd ag yn 2018, roedd 17 y cant o'r holl gyfranogwyr a gysylltodd â PaCE yn medru'r Gymraeg, er bod y gyfran yn amrywio o 20 y cant ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i saith y cant yn Nwyrain Cymru. Ar lefel fwy lleol, roedd y gyfran o gyfranogwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn codi mor uchel â 72 y cant yng Ngwynedd a 64 y cant yn Ynys Môn, ac yn disgyn i ddau y cant yng Nghasnewydd. Drwyddi draw, roedd cyfran uwch o'r cyfranogwyr 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) yn medru'r Gymraeg na'r rhai 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1).

2.16 O'r rhai oedd yn medru'r Gymraeg, dim ond 11 y cant gafodd eu cymorth naill ai'n llwyr neu'r rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y cyfranogwyr a oedd yn medru'r Gymraeg a siaradodd â ni yn fodlon ar y cyfan eu bod wedi cael y gwasanaeth yn Saesneg, mae'r ffaith y defnyddiwyd cyn lleied o Gymraeg gyda siaradwyr Cymraeg yn awgrymu efallai nad oes digon o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth.

**Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu**


*Deilliannau swyddi*

2.17 Roedd cyfanswm o 1,670 o gyfranogwyr PaCE wedi symud i mewn gwaith erbyn Awst 2019; 1,320 ohonynt yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 350 yn

Nwyrain Cymru. Mae hyn gyfwerth â 38 y cant o'r holl gyfranogwyr a gysylltwyd, ac mae'n rhagori ar y targed deilliant cyffredinol o 36 y cant, sydd, ynddo'i hun yn rhagori ar y targed gwreiddiol a gymeradwywyd o ran deilliannau swyddi.

2.18 Mae Ffigur 2.4 yn dangos bod y perfformiad o ran deilliannau swyddi ychydig yn gadarnach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac yn Nwyrain Cymru. Roedd perfformiad mewn perthynas â'r cyfranogwyr 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) yn gadarnach na'r rhai 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) ar draws y ddwy ardal.

**Ffigur 2.4: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul blaenoriaeth**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

Deilliannau swyddi yn ôl ardal awdurdod lleol

2.19 Yn yr un modd â'r cysylltiadau, roedd yna wahaniaethau yn y gyfran o gyfranogwyr oedd symud i mewn i swyddi rhwng un ardal a'r llall. Mae Tabl 2.1 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a 3 a symudodd i mewn i swyddi ym mhob ardal. Mae'n dangos bod perfformiad o ran deilliannau swyddi ar y trywydd iawn i fodloni neu ragori ar y targed diwygiedig mewn 13 awdurdod lleol, ond mae'n syrthio ychydig bach yn brin o'r lefel ofynnol mewn saith arall.  Mae perfformiad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 ar y trywydd iawn i fodloni neu ragori ar y targed a bennwyd mewn pum ardal, ond yn syrthio ychydig bach yn brin o'r targed mewn 12 ardal. Yn y tair ardal sy'n

weddill, mae perfformiad o ran deilliannau swyddi Blaenoriaeth 3 wedi syrthio'n sylweddol brin o'r disgwyliadau, a gallai hynny fod yn destun pryder.

**Tabl 2.1: Y gyfran o gyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul ardal[16]**

| | B1 | B3 |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 38% | 35% |
| Caerffili | 40% | 17% |
| Caerdydd | 33% | 29% |
| Sir Gaerfyrddin | 42% | 34% |
| Ceredigion | 43% | 35% |
| Conwy | 41% | 30% |
| Sir Ddinbych | 35% | 28% |
| Sir y Fflint | 32% | 26% |
| Gwynedd | 54% | 53% |
| Ynys Môn | 24% | 33% |
| Sir Fynwy | 53% | 47% |
| Castell-nedd Port Talbot | 43% | 40% |
| Casnewydd | 36% | 30% |
| Sir Benfro | 26% | 17% |
| Powys | 27% | 11% |
| Rhondda Cynon Taf | 38% | 36% |
| Abertawe | 28% | 29% |
| Torfaen | 57% | 44% |
| Bro Morgannwg | 37% | 25% |
| Wrecsam | 38% | 24% |

Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

2.20 Ar draws yr holl ardaloedd, roedd cyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr benywaidd na rhai gwrywaidd wedi symud i mewn i gyflogaeth, ar lefel o 38 y cant o gymharu â 35 y cant.


Oedran

2.21 Roedd y gyfran o gyfranogwyr a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth yn amrywio yn ôl oedran, gyda 39 y cant o'r rhai 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) yn cychwyn swyddi, a 33 y cant o'r rhai 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) yn gwneud

[16] Mae'r symbolau Coch, Oren a Gwyrdd (RAG) a ddangosir yn cynrychioli:
- Coch - perfformiad sy'n is na'r targed gwreiddiol a bennwyd ar gyfer PaCE o ran deilliannau swyddi sef - 20 y cant
- Oren - perfformiad o rhwng 20 a 35 y cant o ran deilliannau swyddi
- Gwyrdd - perfformiad o dros 35 y cant o ran deilliannau swyddi

hynny. Mae Ffigur 2.5 yn dangos taw'r rhai 16-19 oed oedd y lleiaf tebygol o fod wedi symud i mewn i waith.

**Ffigur 2.5: Cyfran y cyfranogwyr a symudodd i mewn i gyflogaeth yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

Ethnigrwydd

2.22 Ar lefel o 33 y cant drwyddi draw, roedd cyfran ychydig bach yn is o'r cyfranogwyr o gefndiroedd BAME wedi symud i mewn i waith nag yr oedd yn wir ar gyfer y rhaglen ar led. Fodd bynnag, roedd 36 y cant o'r cyfranogwyr BAME 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) wedi symud i mewn i waith.

Anableddau neu anhwylderau iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio


2.23 Yn gyfrannol, roedd llai o gyfranogwyr ag anableddau neu anhwylderau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio wedi symud i mewn i gyflogaeth, ar lefel o 28 y cant ar draws y rhaglen gyfan. Eto, fodd bynnag, roedd cyfran uwch o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 ag anableddau neu anhwylderau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio wedi cychwyn swyddi.

Lefel cymwysterau

2.24 Gwnaeth y cyfranogwyr oedd â chymwysterau gwell adeg cychwyn y rhaglen yn well wrth ddod o hyd i waith na'r rhai oedd heb gymwysterau neu oedd â chymwysterau lefel isel yn unig. Mae Ffigur 2.6 yn dangos bod 44 y cant o'r rhai â chymwysterau lefel 3 neu'n uwch wedi symud i mewn i gyflogaeth, o

gymharu â 32 y cant o'r rhai oedd heb unrhyw gymwysterau wrth ymuno â PaCE.

**Ffigur 2.6: Deilliannau swyddi yn ôl lefel cymhwyster**




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Awst 2019

2.25 Er bod nifer y cyfranogwyr yn isel, mae hi'n nodedig bod cyfran sylweddol is (24 y cant) o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 oedd heb unrhyw gymwysterau wedi symud i mewn i waith.

Y Gymraeg

2.26 Ar draws y rhaglen, roedd 43 y cant o'r cyfranogwyr a oedd yn medru'r Gymraeg wedi symud i mewn i gyflogaeth o gymharu â 37 y cant o'r rhai nad ydynt yn medru'r iaith.

*Cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd*

2.27 Roedd cyfanswm o 150 o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster trwy gymryd rhan yn PaCE. Mae hynny gyfystyr â rhyw dri y cant o'r holl gyfranogwyr, a rhyw hanner y niferoedd y disgwyliwyd y byddent wedi ennill cymwysterau erbyn y pwynt yma yn oes y rhaglen. Roedd 404 unigolyn pellach wedi ennill ardystiadau a oedd yn berthnasol i waith nad oeddent yn rhai cydnabyddedig o dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

*Deilliannau gwaith/gwirfoddoli*

2.28 Roedd rhyw bump y cant o'r cyfranogwyr wedi cwblhau lleoliadau gwaith neu wirfoddoli, a oedd yn gyson iawn â'r disgwyliadau ar gyfer y pwynt yma yn oes y rhaglen.

*Deilliannau addysg neu hyfforddiant*

2.29 Dim ond 12 o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 oedd wedi symud i mewn i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â PaCE, o gymharu â tharged o 38 erbyn Awst 2019. Er na phennwyd unrhyw darged ar gyfer niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 oedd yn cychwyn addysg neu hyfforddiant, roedd cyfanswm o 15 ohonynt wedi gwneud hynny.

# 3. Profiadau'r Cyfranogwyr: Themâu sy'n Codi

## Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon byddwn ni'n cyflwyno ein canfyddiadau a gododd o’n trafodaethau â dwy garfan o gyfranogwyr PaCE:

- Carfan 1: 45 o unigolion a gysylltodd â PaCE yn 2017 ac a gafodd gyfweliadau â ni am y tro cyntaf yn 2018. Cafodd yr unigolion hyn gyfweliadau pellach yn 2019.
- Carfan 2: 44 o unigolion a gysylltodd â PaCE yn 2018 ac a gafodd gyfweliadau â ni am y tro cyntaf yn 2019.

3.2 Roedd y cyfweliadau a gyflawnwyd gyda'r ail garfan o gyfranogwyr yn dilyn patrwm tebyg o gwestiynu i’r un a ddefnyddiwyd gyda'r cyfranogwyr carfan 1 yn 2018. Bwriad y cyfweliadau hyn oedd meithrin, dros amser, ein dealltwriaeth o nodweddion y cyfranogwyr, eu profiadau o PaCE ac effeithiau cynnar y rhaglen arnynt.

3.3 Roedd yr ail garfan yma o gyfranogwyr yn rhannu llawer o’r un nodweddion ac yn rhannu profiadau tebyg o PaCE â'r garfan gyntaf a gafodd gyfweliadau yn 2018. Nid yw'n fwriad gennym ailadrodd canfyddiadau manwl yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn yn hynny o beth, ond yn hytrach tynnu sylw at y themâu newydd sydd wedi codi ers 2018. Fodd bynnag, ceir crynodeb o'r canfyddiadau hynny isod.

## Canfyddiadau allweddol y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn

3.4 Canfu'r Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn bod y cyfranogwyr yn tueddu i rannu’r nodweddion canlynol:

- Anhawster wrth ddod o hyd i ofal plant addas, gan gynnwys gofal plant y tu hwnt i oriau gwaith safonol, a gofal ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.
- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am opsiynau gofal plant.
- Y sialensiau logistaidd sydd ynghlwm wrth drefnu gofal plant i gyd-fynd ag ymrwymiadau gwaith, yn arbennig lle bo mwy nag un plentyn.
- Canfyddiad bod gofal plant yn ddrud, a diffyg ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael.

- Dewis unigolion i fod yn rhieni ar yr aelwyd, o leiaf pan fo'u plant yn ifanc iawn.
- Diffyg cymwysterau neu gymwysterau diweddar perthnasol.
- Diffyg sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Diffyg profiad gwaith diweddar.
- Lefelau amrywiol o gymhelliant i ddod o hyd i waith.
- Sialensiau o ran trafnidiaeth.

3.5 Yn nhermau profiadau'r cyfranogwyr o PaCE, clustnododd y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn y canlynol fel cydrannau allweddol o'r gwasanaeth a gafwyd:

Cymorth y cynghorwyr, gan gynnwys

- Yr asesiad diagnostig: lle mae'r cynghorwyr yn dod i adnabod y cyfranogwyr a deall eu hamgylchiadau, eu huchelgeisiau a'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gweithio.
- Cynllunio gweithredu: sy'n cynnwys archwilio a chytuno ar y ffordd ymlaen gyda'r cyfranogwyr.
- Cyfrifiadau gwell eich byd: lle mae'r cynghorwyr yn dangos i'r cyfranogwyr faint yn well eu byd y byddent yn ariannol yn y gwaith, gan gymryd i ystyriaeth eu hincwm tebygol, yr effaith ar eu budd-daliadau a'r costau y byddent yn eu hwynebu e.e. gofal plant.
- Mentora a hyfforddi: sy'n cynnwys gweithio gyda'r cyfranogwyr i lunio CVs a chwilio am swyddi. Mae'n cynnwys annog a rhoi sicrwydd i'r cyfranogwyr hefyd mewn ffyrdd sy'n cael eu teilwra at anghenion pob unigolyn.
- Cymorth i bontio: lle mae'r cynghorwyr yn helpu'r cyfranogwyr i ddelio â'r holl fiwrocratiaeth a'r sialensiau emosiynol sydd ynghlwm wrth symud i mewn i waith.

Ymyraethau cyflogadwyedd, gan gynnwys:

- Hyfforddiant: sy'n amrywio o gyrsiau byrion i ddarpariaeth sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig.
- Lleoliadau sy'n gysylltiedig â gwaith: darparu profiad gwaith ar gyfer cyfranogwyr a rhywbeth i'w nodi ar eu CVs.

- Y Gronfa Rwystrau: i helpu i oresgyn y rhwystrau ariannol terfynol i waith.
- Cymorth gyda gofal plant: i dalu costau gofal plant wrth gysylltu â'r cynghorwyr, cymryd rhan mewn hyfforddiant neu weithgareddau lleoliadau gwaith, neu wrth bontio i'r byd gwaith.

3.6 Gan droi at ddeilliannau, nododd y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn::

- Bod symud i mewn i waith yn gysylltiedig â ffactorau fel bod â gwir gymhelliant i ddod o hyd i waith, uchelgeisiau realistaidd o ran y swyddi sydd ar gael iddynt, cysylltu'n ymarferol â PaCE a bod wedi cynnal swydd yn y gorffennol.
- Bod y ffactorau sy’n effeithio ar y rhai sy'n llai tebygol o symud i mewn i gyflogaeth yn cynnwys y ffaith nad ydynt erioed wedi gweithio, cyflawniad addysgol gwael, bod â nifer o blant, a phroblemau personol (e.e. problemau iechyd meddwl ac anawsterau teuluol).
- Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr oedd yn cychwyn cyflogaeth yn mynd i swyddi lleol, lefel mynediad, gyda sawl un yn dewis gweithio 16 awr yr wythnos mewn ymdrech i daro cydbwysedd rhwng ennill cyflog a rheoli cyfrifoldebau gofal plant.
- Prin oedd y cyfranogwyr a enillodd gymwysterau o ganlyniad i'w cyfranogaeth, a llai fyth a symudodd i mewn i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â PaCE.
- Awgrymodd y gwaith maes bod yna effeithiau ehangach ar y cyfranogwyr a'u teuluoedd y tu hwnt i'r deilliannau sy'n gysylltiedig â gwaith neu gymwysterau. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - i'r cyfranogwyr: magu hyder, gwell ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad, gwell ymdeimlad o gysylltiad cymdeithasol, bod â mwy o arian a dangos esiampl i'w plant
    - i deuluoedd y cyfranogwyr: plant yn llewyrchu trwy gael profiad o ofal plant ffurfiol, a bod â mwy o strwythur yn eu bywydau.

**Y themâu a gododd o'r gwaith maes a gyflawnwyd yn 2019**

3.7 Nodwyd yn y bennod flaenorol bod cronfa ddata'r rhaglen yn awgrymu bod 38 y cant o'r cyfranogwyr wedi symud i mewn i gyflogaeth neu hunangyflogaeth. Mae ein gwaith maes ni’n awgrymu bod cyfran uwch (50 y cant) o'r cyfranogwyr yn gweithio, ond bod rhai o'r rhain yn gweithio llai na'r 16 awr yr wythnos oedd yn angenrheidiol i gyfrif fel deilliant swydd at ddibenion ESF. Roedd un o bob pump (pump) o garfan 1 a gafodd gyfweliadau â ni, a dros chwarter (saith) o'r cyfranogwyr carfan 2 oedd mewn cyflogaeth, ond yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.

*Thema: natur y swyddi a gymerwyd*

3.8 Roedd rhyw hanner (26) y cyfranogwyr a oedd mewn gwaith yn cyflawni swyddi lefel weddol isel 'yr economi sylfaenol'[17] (e.e. cynorthwywyr gwerthu, gweithwyr bar, llenwyr silffoedd, glanhawyr, cynorthwywyr gofal). Roedd tua dau o bob pump (18) yn gweithio mewn rolau canolradd (e.e. gweinyddwyr, cynorthwywyr dysgu, gweithwyr cymorth tai) ac ychydig dros un o bob deg (chwech) mewn rolau lled-broffesiynol / proffesiynol (e.e. uwch weinyddwr, swyddog prawf a pheiriannydd telathrebu). Roedd y rhai a symudodd i mewn i swyddi lefel is yn dueddol o fod â lefelau is o gymwysterau wrth gychwyn PaCE na'r rhai a aeth i mewn i rolau canolradd neu led-broffesiynol/ proffesiynol.

3.9 O'r 25 aelod o garfan 1 a oedd mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth yn 2019:

- Roedd 10 wedi bod mewn swyddi neu'n hunangyflogedig yn 2018.
- Roedd un wedi bod mewn addysg/hyfforddiant yn 2018.
- Roedd 10 yn dal i fod yn gyfranogwyr yn y rhaglen 2018.
- Roedd pedwar wedi bod yn ddi-waith yn 2018.

[17] 'Yr economi sylfaenol' yw'r term y mae Llywodraeth Cymru wedi ei fabwysiadu i ddisgrifio'r 'nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt', ac maent yn cynnwys pethau fel gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd ac adwerthu.

3.10 O'r rhai a oedd mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth yn 2018 ac yn 2019, roedd hanner yn yr un swyddi ag y buont ynddynt yn 2018, a hanner mewn swyddi gwahanol. Roedd pawb ond un o'r rhai a oedd wedi newid eu swyddi mewn rolau elfennol neu werthu, yn gweithio ar yr isafswm cyflog neu'n agos ato. Roedd yr unigolion hyn wedi newid eu swyddi yn ystod y flwyddyn, naill ai am eu bod wedi cael eu diswyddo gan gyflogwyr a oedd yn wynebu anawsterau ariannol, am nad oeddent wedi cael yr oriau gwaith yr oeddent wedi eu disgwyl gan eu cyflogwyr gwreiddiol neu oherwydd perthnasau anodd gyda rheolwyr a chydweithwyr.

*Thema: ansicrwydd rhai swyddi lefel isel*

3.11 Mae hyn dangos pa mor fregus yw rhai swyddi lefel isel, yn enwedig yn y sectorau adwerthu a chroeso. Er y bu modd i'r unigolion o dan sylw ddod o hyd i waith arall yn weddol rwydd (sy'n awgrymu bod y rhwystrau i gael gwaith o'r math yma'n gymharol isel), mae yna berygl y gallai unigolion wegian rhwng gwaith ansicr â chyflog isel a chyfnodau o ddiweithdra, gan gynyddu'r tebygolrwydd o fynd i dlodi drosodd a thro.

ASTUDIAETH ACHOS: Mared

Mae Mared yn fam i ddau blentyn. Roedd hi wedi rhoi'r gorau i swydd yn glanhau i fagu ei phlant, ond roedd hi'n dal i helpu gyda busnes y teulu pan fo angen. Roedd ei phriodas wedi chwalu a ffeindiodd Mared ei hun yn hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith ac yn chwilio am swydd.

Trafododd Mared bosibiliadau o ran hyfforddiant gyda'i chynghorydd PaCE, ond roedd hi'n glir ei bod hi 'am gael swydd nawr' ac enwodd gwaith gweini, gwaith bar neu waith yn yr awyr agored fel meysydd oedd o ddiddordeb iddi. Ar ôl llunio CV a gweithio ar geisiadau am swyddi gyda'i chynghorydd PaCE, cynigiwyd swydd i Mared mewn caffi/ystafell de yn lleol, yn gweithio 20 awr yr wythnos.

Roedd busnes yn araf yn y caffi/ystafell de, ac ar ôl tri mis yn y swydd, cafodd oriau gwaith Mared eu cwtogi. Doedd Mared ddim yn gallu byw ar ei chyflog, ac felly dechreuodd chwilio am swydd arall. Cafodd swydd mewn bwyty yn weddol gyflym, ond eto nid oedd y cyflogwr yn gallu cynnal

yr oriau a addawyd iddi'n wreiddiol ac nid oedd hi'n ennill digon i gynnal ei theulu.

Wedyn ffeindiodd Mared swydd yn gweini yn y bar mewn parc gwyliau. Roedd hi'n mwynhau'r rôl ac yn fodlon ei bod yn gallu gwneud ei gwaith o gwmpas ei chyfrifoldebau gofal plant gyda chymorth ei pherthnasau. Ond roedd hi'n cydnabod bod busnes y parc gwyliau'n dymhorol ac y bydd hi'n debygol o fod allan o waith eto ac yn chwilio am 'waith dros y gaeaf' erbyn yr hydref.

3.12 Ond nid oes unrhyw fwriad bychanu gwerth rolau o'r math yma: ar y cyfan roedd yr unigolion o dan sylw'n mwynhau eu gwaith, nid oeddent yn poeni'n ormodol am ddiogelwch eu swyddi, ac roedd y rhan fwyaf yn rhagweld y byddent yn parhau i weithio mewn rolau o'r math yma yn y dyfodol rhagweladwy. I bob pwrpas, roedd y swyddi hyn yn cynnig lefel o incwm a oedd yn dderbyniol (er nad yn ddelfrydol), yn cynnig rhyw lefel o hyblygrwydd, nid oeddent yn cynnwys lefelau gormodol o gyfrifoldeb ac roedden nhw'n cynnig manteision cymdeithasol oedd yn beth da i'r unigolion.

3.13 Roedd un unigolyn a oedd wedi newid ei swydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sefyll ar wahân i'r lleill. Roedd e'n gadarn iawn ei fod yn gweld y swydd lefel isel a gymerodd yn wreiddiol fel man cychwyn yn hytrach na rhywbeth roedd yn rhag-weld y byddai'n ei wneud yn y tymor hir.

ASTUDIAETH ACHOS: Nick

Mae Nick yn rhiant sengl i ddau blentyn. Mae ganddo brofiad gwaith helaeth, yn fwyaf diweddar fel peiriannydd telathrebu. Ond doedd pethau ddim wedi bod yn hawdd iddo dros y blynyddoedd diwethaf, collodd ei swydd wrth i’w gwmni wneud toriadau, cafodd ysgariad, daeth yn rhiant sengl a symudodd i gymuned newydd, oll o fewn cyfnod cymharol fyr. Ffeindiodd ei hun mewn cyflwr meddwl 'bregus' ac roedd e'n teimlo bod angen iddo roi'r gorau i weithio am gyfnod i ofalu am ei blant.

Roedd Nick 'yn casáu gwneud dim' ac am y tro cyntaf yn ei fywyd, roedd e'n deall 'pa mor galed yw bywyd i bobl ar fudd-daliadau'. Er ei fod e'n awyddus i ddychwelyd i'r gwaith, nid oedd e'n teimlo ei fod yn gallu

dychwelyd i swydd â'r un lefel o gyfrifoldeb a oedd ganddo o'r blaen, ac nid oedd yn barod i wneud hynny.

Gweithiodd yr ymgynghorydd PaCE gyda Nick i'w gynorthwyo i ddeall ei gryfderau ac i ystyried llwybr i ddychwelyd i'r byd gwaith. Cynorthwyodd yr ymgynghorydd Nick i adfer ei hyder a theimlo bod modd iddo 'ddatrys y peth ... doedd hi ddim yn ddiwedd y byd ... y gallai wneud i rywbeth ddigwydd ... rhywbeth da iddo fe ac i'r plant'.

Cymrodd Nick swydd ran amser mewn siop bwyd brys i gychwyn ei siwrnai yn ôl i'r byd gwaith yn raddol bach, ond roedd ganddo ddyhead pendant i ddychwelyd i'r math o waith yr oedd wedi bod yn ei wneud o'r blaen yn y pen draw. Cymaint â phosibl, gweithiodd Nick sifftiau o amgylch oriau ysgol ei blentyn hynaf, ond roedd yn dal i deimlo bod 'cost gofal plant yn rhwystr' a chafodd drafferth dynnu dau ben llinyn ynghyd.

Wrth weithio yn y siop bwyd brys, dechreuodd Nick ymgeisio am swyddi yn y maes telathrebu, ac ymhen ychydig fisoedd, llwyddodd i gael swydd amser-llawn fel peiriannydd telathrebu. Mae'r swydd yn talu'n dda ac mae Nick yn gallu fforddio talu costau gofal plant (meithrinfa a chlwb ar ôl ysgol) yn gyffyrddus, ynghyd â phethau eraill fel 'clwb nofio' a phethau neis eraill. Dywedodd Nick fod y cymorth yr oedd wedi ei gael trwy PaCE wedi ei osod mewn sefyllfa lle gall 'sefyll i fyny ag ysgwyddau nôl a theimlo balchder o wybod mod i'n gwneud gwahaniaeth, nad ydw i'n hunan-dosturio nac yn chwerw mwyach ... ond yn mynd allan ac yn teimlo'r heulwen'.

*Thema: dychwelyd i swydd debyg*

3.14 Roedd nifer o'r unigolion a oedd wedi symud i mewn i waith wedi cymryd swyddi a oedd yn debyg neu'n llai ymestynnol na'r swyddi roeddent wedi eu gwneud o'r blaen. Roedden nhw'n hapus i ddychwelyd i rolau oedd yn teimlo'n gyfarwydd ac yr oeddent yn teimlo eu bod yn gallu eu rheoli ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau teuluol.

ASTUDIAETH ACHOS: Olivia

Mae Olivia'n fam sengl i ferch pedair oed. Ar ôl cymhwyso fel therapydd harddwch yn 17 oed, roedd Olivia wedi bod mewn gwaith cyson nes geni ei merch. Roedd Olivia'n briod adeg geni ei merch ac er ei bod hi'n 'dwlu' ar ei gwaith, penderfynodd ddod yn fam amser llawn, a rhoddodd y gorau i'w swydd. Ar ôl i Olivia a'i gŵr wahanu, symudodd i fyw yn agosach at ei rhieni.

Wrth i'w merch nesáu at oedran ysgol, dechreuodd Olivia feddwl am ddychwelyd i'r gwaith. Ystyriodd sefydlu ei busnes therapi harddwch ei hun, â'r canfyddiad y byddai gweithio drosti hi ei hun yn rhoi'r hyblygrwydd iddi gyflawni ei hymrwymiadau gwaith o amgylch anghenion ei merch. Ond roedd salon harddwch lleol yn chwilio am therapydd 'ar yr amser iawn' a bu cais Olivia am y swydd yn llwyddiannus. Roedd hi'n hapus iawn yn ei swydd, gan ddweud bod gwaith therapi harddwch 'beth rydw i wedi bod yn ei wneud ers pan oeddwn i'n 16 oed ... dyna beth rwy'n ei wneud'. Roedd Olivia'n ffodus hefyd fod ei chyflogwr 'wedi bod mewn sefyllfa debyg' a'i bod, felly'n deall, ac yn hyblyg am oriau gwaith Olivia. Mae Olivia'n rhagweld y bydd hi'n aros yn y swydd yn y dyfodol rhagweladwy.

*Thema: gostwng dyheadau am y tro*

3.15 Roedd eraill wedi cymryd rolau oedd yn llai ymestynnol ac â llai o gyflog nag yr oeddent wedi eu gwneud o'r blaen, a hynny mewn ambell i achos i lenwi bwlch a helpu 'i dalu'r biliau' a'u cadw i fynd nes eu bod mewn sefyllfa i gymryd swyddi trymach â chyflogau gwell neu i ailgydio yn eu gyrfa.

ASTUDIAETH ACHOS: Penny

Mae Penny'n 34 oed ac yn fam sengl i fab tair oed. Gadawodd yr ysgol yn 16 oed heb fawr o gymwysterau, a gwnaeth amrywiaeth o swyddi lefel isel, gan dreulio 12 mlynedd yn gweithio fel gweithiwr gofal yn y pen draw cyn geni ei mab. Yn dilyn chwalfa perthynas tymor hir, symudodd Penny i fyw'n agosach at ei theulu.

Gweithiodd Penny gyda'i hymgynghorydd PaCE i edrych ar opsiynau gwaith posibl, gan gynnwys rolau cwnsela neu waith gyda phobl sy'n

dioddef o ddementia. Fodd bynnag, penderfynodd Penny ddychwelyd i weithio yn y sector gofal yn y pen draw. Nododd ei bod hi'n 'rhywbeth roeddwn i'n gyfarwydd ag ef, roeddwn i'n gwybod bod angen i mi weithio ... rydw i wrth modd ar fy ngwaith ond rydw i eisiau gwneud rhywbeth arall ... rydw i eisiau hyfforddi ar gyfer gyrfa ... rydw i eisiau mynd nôl i'r coleg i astudio ... dydw i ddim yn gallu fforddio peidio â gweithio, felly bydd angen i mi ffeindio ffordd i wneud y ddau beth yr un pryd ... rydw i wedi syrthio i'r swydd yma, ond mae gen i'r awydd i ddilyn gyrfa o hyd ... gobeithio taw cam ymlaen ar y siwrnai yw hyn, mynd i'r arfer o weithio eto'.

3.16 Er bod unigolion yn fodlon, ar y cyfan, gwneud swyddi nad oedd yn eu herio nhw'n ormodol yn y tymor byr o leiaf, roedd ambell un o'r rhai a gafodd gyfweliadau, fel Nick, wedi datblygu eu gyrfaoedd ers ymadael â PaCE.

*Thema: oriau gwaith*

3.17 Fel a nodwyd uchod, roedd bron i chwarter y bobl a gafodd gyfweliadau a oedd wedi cychwyn cyflogaeth (11 ar draws y ddwy garfan) yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, ac ni fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ddeilliant swydd at ddibenion ESF. Roedd bron i hanner (23 ar draws y ddwy garfan) yn gweithio rhwng 16 a 23 awr yr wythnos, un ymhob deg (pump) yn gweithio rhwng 24 a 31 awr, ac un o bob pump (10) yn gweithio 32 awr neu ragor.

3.18 Roedd y cyfranogwyr yn tueddu i gymryd swyddi rhan-amser sy'n cyd-fynd ag oriau meithrin/ysgol cymaint â phosibl. Ar y cyfan, roedd yr unigolion yn fodlon ar eu horiau gwaith, hyd yn oed lle bo'r rheiny'n is na'r trothwy o 16 awr sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith[18]. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, roedd yr unigolion o dan sylw'n gallu dibynnu ar ffynonellau eraill i'w cynnal yn ariannol, gan gynnwys mathau eraill o fudd-daliadau a'u priod/partner.

[18] Mae'r Credyd Cynhwysol wedi cymryd lle'r Credyd Treth Gwaith i hawlwyr newydd erbyn hyn.

ASTUDIAETH ACHOS: Rachel

Mae Rachel yn 36 oed ac yn fam i ddau o blant. Er iddi gael ei phlentyn cyntaf pan oedd yn 16 oed roedd ganddi gymhwyster lefel 3, a bu'n gweithio rhan-amser mewn rolau arlwyo ac adwerthu tan yn fuan cyn iddi gael ei hail blentyn rhyw chwe blynedd yn ôl.

Pan ddaeth Rachel i gysylltiad â PaCE, roedd hi'n barod i chwilio am waith ond roedd ganddi ganfyddiad fod gormod o bethau yn ei herbyn, gan gynnwys diffyg profiad gwaith diweddar, y ffaith fod gan ei phlentyn ifancaf 'bryder gwahanu', fod salwch tymor hir gan ei mam, a'i diffyg hyder ei hun. Dywedodd hi'n onest hefyd ei bod hi 'ychydig bach yn ddiog' a'i bod wedi bod yn amheus iawn am yr ymgynghorydd PaCE ar y cychwyn, gan gyfaddef ei bod hi'n 'ofni dweud y peth anghywir' rhag ofn y byddai'n 'dweud wrth y Ganolfan Waith'

Bu Rachel yn gweithio gyda'r ymgynghorydd PaCE am sawl mis yn llunio CV, yn llenwi ceisiadau am swyddi, yn ymarfer ffug-gyfweliadau ac yn archwilio'r posibilrwydd o wneud ychydig o waith gwirfoddol i ennill profiad gwaith. Trefnodd yr ymgynghorydd ddau gwrs hyfforddi i Rachel hefyd, ond dim un a gwblhawyd ganddi. Lleihaodd cysylltiadau Rachel â PaCE ychydig pan ddaeth yn ofalwr cofrestredig i'w mam, ond roedd hi’n credu bod y cynghorydd wedi plannu hedyn yn ei meddwl fod ganddi'r gallu i ffeindio a chadw swydd.

Ar ôl ychydig fisoedd o ofalu am ei mam, perswadiodd ffrindiau Rachel hi i fynd i ddiwrnod agored lle'r oedd sefydliad gofal cartref yn recriwtio. Er nad oedd hi erioed wedi ei dychmygu y byddai’n gofalu am neb ond ei mam, ymgeisiodd Rachel, a llwyddodd i gael swydd yn gweithio chwech i wyth awr yr wythnos fel gofalwr cartref. Roedd hyn yn cyd-fynd yn dda â'i chyfrifoldebau gofalu a'i rôl fel gofalwr cofrestredig ei mam. Roedd hi'n gweithio rhyw awr neu ddwy y dydd, yn ystod oriau ysgol fel rheol.

Roedd incwm Rachel yn dod o'i chyflog, Lwfans Gofalu ac elfen o'r Credyd Cynhwysol, ond roedd hyn yn fwy nag yr oedd hi wedi ei gael wrth hawlio'r Cymhorthdal Incwm. Galluogodd hyn iddi wario mwy ar ei phlant 'gan wneud llawer o bethau na oeddem ni'n eu gwneud o'r blaen' a 'chael

cinio gyda ffrindiau' o bryd i'w gilydd, oedd yn rhywbeth nad oedd hi'n gallu fforddio ei wneud o'r blaen - 'doeddwn i byth yn defnyddio arian fy mudd-daliadau i wneud hynny ... roedd yr arian yna i'r plant'.

Roedd Rachel yn mwynhau ei swydd yn fawr ac yn teimlo'n well amdani ei hun am nad oedd hi bellach 'yn 35 oed heb swydd ac ar fudd-daliadau'.

*Thema: enillion a dibyniaeth ar gredydau treth*

3.19 Roedd ychydig dros dri chwarter y rhai a symudodd i mewn i gyflogaeth (38 ar draws y ddwy garfan) yn ennill llai na £12,000 y flwyddyn (oedd fwy neu lai yn gyfartal â'r trothwy trethi) yn 2019, gyda'r mwyafrif yn gweithio llai na 24 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol. Roedd tri unigolyn yn ennill mwy na lefel canolrif yr enillion wythnosol gros ar gyfer Cymru[19].

3.20 O ystyried eu henillion cymharol isel, roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd mewn cyflogaeth yn ddibynnol ar fudd-daliadau o ryw fath, yn nodweddiadol Credydau Treth Plant, Budd-daliadau Tai, Credydau Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol i ategu eu hincwm o enillion.

*Effeithiau posibl newidiadau i fudd-daliadau*

3.21 Hwyrach taw'r canfyddiad mwyaf syfrdanol oedd bod dros hanner yr ail garfan o gyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni wedi symud i mewn i gyflogaeth neu hunangyflogaeth, o gymharu â thraean o'r garfan gyntaf o gyfranogwyr. Mae hi'n debygol bod hyn yn ddyledus i ryw raddau i’r gwahaniaeth bach yn y dulliau o weithredu a ddefnyddiwyd i wahodd cyfranogwyr i gyfrannu at yr astudiaeth rhwng 2018 a 2019, gyda llai o'r rhai a gafodd gyfweliadau yn 2019 yn gyfranogwyr cyfredol yn y rhaglen.

3.22 Ond mae hi'n ddigon posibl y gallai'r cynnydd yn y gyfran o gyfranogwyr a symudodd i mewn i gyflogaeth fod yn ddyledus i ryw raddau hefyd i newidiadau i'r system fudd-daliadau, gyda'r Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno fesul tipyn ar draws nifer o ardaloedd awdurdod lleol yn y cyfamser, gan gymryd lle'r budd-daliadau cyfredol o dipyn i beth, gan gynnwys y Credyd

[19] Yr enillion gros cyfartalog (canolrifol) fesul ardal leol yng Nghymru a blwyddyn oedd £27,820 yn Hydref 2019 yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Treth Gwaith a'r Credyd Treth Plant. Mae'r Credyd Treth Gwaith yn mynnu bod hawlwyr yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, ond nid oes unrhyw amod o ran lleiafswm nifer yr oriau gwaith yn gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol. Mae'r Credyd Cynhwysol wedi cael ei ddylunio'n bwrpasol yn y modd hwn er mwyn annog yr hawlwyr i weithio (dim ots sawl awr), ac mae hi'n nodedig bod y Resolution Foundation wedi ffeindio bod y Credyd Cynhwysol yn rhoi cymhelliant i rieni sengl (ac yn enwedig pobl sy'n rhentu) i leihau eu horiau gwaith fel eu bod yn is na'r trothwy 16 awr oedd yn berthnasol i'r system credydau treth[20].

3.23 Fel a nodwyd uchod, roedd dros chwarter o'r garfan o bobl a gafodd gyfweliadau yn 2019 a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth neu hunangyflogaeth yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos o gymharu ag un ym mhob pump o'r rhai a gafodd gyfweliadau yn 2018. Roedd rhai o'r unigolion hyn yn gobeithio cynyddu eu horiau gwaith dros amser wrth i'w plant ddod yn fwy annibynnol.

ASTUDIAETH ACHOS: Sioned

Mam sengl i blentyn tair oed yw Sioned. Cyn geni ei merch, roedd hi wedi treulio sawl blwyddyn yn gweithio yn y sector gofal, ac yn ystod yr amser yna, roedd hi wedi llwyddo i ennill cymhwyster lefel 5 mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Aeth Sioned nôl i'r gwaith am gyfnod byr ar ôl geni ei phlentyn ond ffeindiodd ei bod hi'n cael llai o Fudd-dal Tai am ei bod hi'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos. Roedd ei phlentyn yn ifanc iawn ar y pryd ac ni fyddai wedi bod yn ymarferol i Sioned gynyddu ei horiau gwaith, a oedd yn golygu 'na allai fforddio' parhau i weithio, a bu rhaid iddi roi'r gorau i'w swydd.

Roedd Sioned yn dal i fod yn awyddus i weithio ac ar ôl cyflawni Cyfrifiad Gwell eich Byd a thrafod ei hopsiynau gydag ymgynghorydd PaCE, newidiodd i'r Credyd Cynhwysol a dechreuodd chwilio am swydd arall. Am nad oes angen iddi weithio isafswm nifer o oriau i fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol, mae Sioned wedi penderfynu cyfyngu ar ei horiau gwaith am y tro, a hynny'n rhannol i'w galluogi i ofalu am ei

[20] Resolution Foundation (2018) Back in credit? Universal Credit after Budget 2018, t.4.

phlentyn, ac yn rhannol i osgoi cyfaddawdu'r gostyngiad y mae'n ei chael ar y Dreth Gyngor ar hyn o bryd.

Mae Sioned yn bwriadu cynyddu ei horiau gwaith pan fydd ei phlentyn yn dechrau ysgol amser-llawn. Mae hi'n chwarae gyda'r syniad o ddilyn cwrs Mynediad i Nyrsio os yw'n gallu ffeindio ffordd o wneud hynny wrth ei chynnal hi a'i phlentyn.

3.24 Soniodd yr adroddiad ar Brosesau a Deilliannau am ofn cyfranogwyr o fod ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i bontio i'r byd gwaith, a phwysigrwydd cael sicrwydd gan y cynghorwyr na fyddai rhoi'r gorau i rai mathau o fudd-daliadau yn cael effaith niweidiol ar eu hincwm. Roedd hyn yn dal i fod yn wir yn 2019, gyda chyfranogwyr unigol yn dibynnu ar y cynghorwyr i'w cynorthwyo i ffeindio'u ffordd trwy'r system budd-daliadau a'u gosod mewn sefyllfa lle gallent feddwl am symud i gyfeiriad dod o hyd i waith. Mae offeryn Cyfrifiadau Gwell eich Byd yn arf annatod i'r cynghorwyr, ond mae ar y cynghorwyr angen dealltwriaeth dda o'r system fudd-daliadau hefyd er mwyn cynorthwyo'r cyfranogwyr.

ASTUDIAETH ACHOS: Timi

Mae Timi'n fam sengl i ferch pump oed. Mae ganddi radd mewn busnes o Slofacia, lle cafodd ei geni, ond aeth i weithio fel gofalwraig cartref ar ôl cyrraedd y DU rhyw 14 mlynedd yn ôl. Roedd Timi'n mwynhau ei gwaith gofalu er nad oedd ei chyflog yn dda. Rhoddodd Timi'r gorau i weithio ar ôl geni ei merch, ac roedd hi'n dibynnu ar incwm ei gŵr i gynnal y teulu ar y cychwyn. Dechreuodd Timi hawlio Cymhorthdal Incwm ar ôl i'w phriodas chwalu.

Sylweddolai Timi y byddai angen iddi ffeindio swydd ar ôl i'w merch fynd i'r ysgol, ond roedd hi'n anodd iddi weld sut y gallai ennill digon a gofalu am ei merch petai'n dychwelyd i waith gofal cartref. Daeth i'r casgliad y byddai angen iddi chwilio am waith â chyflog gwell a fyddai'n cyd-fynd ag oriau ysgol ei phlentyn. Gan fanteisio ar ei phrofiad o weithio ym maes gofal, roedd Timi'n meddwl hwyrach y byddai'n hoffi mynd i faes trin traed/iechyd traed, ac aeth ati i ymchwilio i gyfleoedd i hyfforddi. Trafododd y

posibilrwydd o ddilyn cwrs iechyd y traed gyda'i hyfforddwr gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith, a chafodd ei chyfeirio at PaCE am gymorth i drefnu gofal plant er mwyn iddi ddilyn y cwrs.

Tua'r adeg pan gwrddodd â'i chynghorydd PaCE am y tro cyntaf, daeth taliadau Cymhorthdal Incwm Timi i ben, gan ei gadael heb unrhyw incwm. Nid oedd wedi deall na fyddai'n gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol yn awtomatig wrth iddi ddilyn hyfforddiant a pharatoi ar gyfer y byd gwaith am nad oedd hi wedi bod yn gweithio ers dwy flynedd. Roedd y cynghorydd yn cydnabod na allai Timi ystyried gwneud unrhyw hyfforddiant nes iddi ddatrys yr argyfwng ariannol yma, ac felly aeth i'r Ganolfan Byd Gwaith gyda Timi i esbonio'r sefyllfa ac i roi sicrwydd i'w hyfforddwr gwaith ei bod ar y trywydd i weithio.

Adeg y cyfweliad, roedd Timi ar fin cwblhau ei chwrs, ac nid oedd yn gallu canmol digon y ffordd yr oedd y cynghorydd wedi 'siarad drosti' ac wedi rhoi 'calon ac enaid' i'w chynorthwyo i ddatrys ei phroblem budd-daliadau. Pe na bai'r cynghorydd wedi camu i mewn, roedd hi’n ofni y byddai wedi bod yn wynebu 'problemau ariannol dybryd; ac y byddai wedi cael ei gorfodi 'i gymryd unrhyw hen swydd' yn hytrach na rhywbeth a fyddai'n gallu ei chynnal hi a'i merch.

ASTUDIAETH ACHOS: Vicci

Mae Vicci'n 34 oed ac yn rhiant sengl i ddau blentyn. Roedd hi wedi bod yn gweithio yn y byd adwerthu cyn ac ar ôl genedigaeth ei phlentyn cyntaf, ond doedd hi ddim wedi gweithio ers geni'r ail blentyn. Roedd Vicci yn 'casáu' gwaith adwerthu ac roedd hi'n awyddus i wneud rhywbeth arall pan ymunodd â PaCE.

Roedd y cynghorydd PaCE wedi trefnu bod Vicci'n cyflawni cwrs therapi harddwch lefel 2 ynghyd â nifer o gyrsiau byrion sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd Vicci'n meddwl yr hoffai gychwyn gweithio fel therapydd harddwch hunangyflogedig, a chyfeiriodd y cynghorydd hi at Fusnes Cymru am gymorth i ddatblygu ei syniad busnes.

Pan oedd Vicci'n barod i ddechrau masnachu, rhoddodd y cynghorydd gymorth iddi wneud cais am y Lwfans Mentrau Newydd, a oedd yn darparu incwm wythnosol gwarantedig o £60 i gychwyn, gan ddisgyn i £30 wedyn. Rhoddodd y cynghorydd gymorth i Vicci gofrestru ar gyfer Credyd Cynhwysol hefyd, ac i hawlio cymorth i dalu 85 y cant o'i chostau gofal plant o fewn hynny. Nid oedd Vicci'n gyfarwydd â manylion grantiau busnes neu'r system fudd-daliadau ac ni fyddai wedi gwybod ble i gychwyn heb gymorth y cynghorydd.

3.25 Er taw eithriadau oeddynt, roedd gan rai cyfranogwyr ddealltwriaeth dda o'r system fudd-daliadau ac roedd rhai o'r unigolion a gafodd gyfweliadau â ni'n teimlo eu bod yn gwybod llawn cymaint, os nad mwy na'u cynghorwyr, am yr amodau oedd yn gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol. Roedd un, er enghraifft, yn ymwybodol nad oedd yna amod o ran isafswm nifer yr oriau yr oedd hawlwyr y Credyd Cynhwysol yn eu gweithio mwyach, ac roedd yr hyn yr oedd hi'n ei weld fel obsesiwn ei chynghorydd â hi'n gweithio 20 awr yn ei gwylltio. Dadleuodd y cyfranogwr yma y dylai'r cynghorydd fod yn 'fwy gwybodus am y system fudd-daliadau, ac yn enwedig y Credyd Cynhwysol' Dadleuodd cyfranogwr arall, a oedd wedi cael trafferthion ariannol oherwydd camgymeriadau wrth gyflwyno'r manylion angenrheidiol i hawlio costau gofal plant y Credyd Cynhwysol, y dylai'r cynghorwyr esbonio'r system a'r gofynion o ran gwybodaeth i gyfranogwyr sy’n pontio i waith.

3.26 Hwyrach ei bod hi'n werth pwysleisio eto yma bod dadansoddiad o'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod cyfran is o'r cyfranogwyr wedi symud i mewn i waith (38 y cant) nac yr oedd yn wir am y rhai a gysylltwyd yn ein gwaith maes. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith na ellir cofnodi deilliannau swyddi at ddibenion ESF oni bai bod y cyfranogwyr yn gweithio 16 awr neu ragor yr wythnos, ac mae'n bosibl bod hyn yn esbonio pam y gellid ystyried bod y cynghorwyr yn rhoi pwysau ar y cyfranogwyr i weithio mwy o oriau nag y maent yn dymuno eu gweithio.

*Thema: economi gofal plant cymysg*

3.27 Er gwaetha'r hyn a ddywedwyd uchod am bwysigrwydd cymorth y cynghorydd wrth gael credydau treth gofal plant, nid pawb o'r rhai a symudodd i mewn i gyflogaeth oedd yn talu am eu gofal plant wrth weithio. Roedd bron i hanner (23) o'r rheiny oedd mewn cyflogaeth yn dibynnu ar yr ysgol fel prif fath o ofal plant. Mewn ambell i achos, roedd hyn yn cynnwys defnyddio clybiau brecwast rhad ac am ddim yn ysgolion eu plant hefyd. Trwy gymryd swyddi oedd yn cyd-fynd ag oriau ysgol, roedd unigolion yn gallu dileu neu leihau'r angen i dalu am ofal plant. Roedd ychydig dros hanner yr unigolion hyn yn troi at ffrindiau a pherthnasau i'w cynorthwyo gyda gofal plant y tu hwnt i oriau ysgol, ac roedd eraill yn defnyddio meithrinfeydd, gofalwyr plant a mathau eraill o ddarpariaeth gofal plant proffesiynol.

3.28 Roedd gwyliau ysgol yn fwy o her i'r bobl oedd yn gweithio, ac roedd siâp yr 'economi cymysg' yn newid ychydig yn ystod y cyfnodau hynny, gyda rhieni'n defnyddio mwy o'u hawl nhw a'u cyd-rieni i wyliau, trefniadau gweithio hyblyg, perthnasau a ffrindiau ac yn talu am ofal plant. Roedd trefniadau gofal plant yn arbennig o ymestynnol i unigolion heb rwydweithiau teuluol neu gymdeithasol i helpu gyda gofal plant, neu'r rhai oedd yn dibynnu ar berthnasau bregus â chynbartneriaid.

ASTUDIAETH ACHOS: Alwen

Mae Alwen yn 37 oed ac yn fam i ddau blentyn â bwlch o 15 mlynedd rhyngddynt. Bu Alwen yn gweithio yn y sector gofal am sawl blwyddyn ar ôl geni ei phlentyn hynaf, ond collodd ei swydd yn fuan cyn geni ei hail blentyn a doedd hi ddim wedi gweithio ers hynny. Roedd Alwen wedi dychwelyd i fyw yn yr ardal lle cafodd ei magu'n ddiweddar yn dilyn chwalfa perthynas anodd. Roedd hi'n awyddus i weithio am fod ei phlentyn lleiaf wedi dechrau addysg amser llawn.

Ar ôl dechrau gwag fel cynorthwyydd gofal iechyd yn y GIG, llwyddodd Alwen i gael swydd gyda chwmni gofal cartref. Roedd y swydd yma'n caniatáu iddi weithio rhwng 8.30am a 2.30pm yn ystod yr wythnos, oedd yn cyd-fynd yn dda ag oriau clwb brecwast ac ysgol ei phlentyn lleiaf. Yn ystod

gwyliau'r ysgol, roedd Alwen yn talu i'w phlentyn lleiaf fynd i glwb gwyliau am ddau ddiwrnod llawn yr wythnos, ac roedd hi'n gallu newid ei phatrwm gwaith i gyd-fynd â hyn fel ei bod hi'n gweithio oriau ychwanegol ar y diwrnodau hyn (8.30am i 5pm). Ar y diwrnodau eraill, roedd hi'n gallu dibynnu ar ei pherthnasau (gan gynnwys ei phlentyn hŷn sy'n 18 oed erbyn hyn) i ofalu am ei phlentyn llai. Mae Alwen yn cymryd ei gwyliau o'r gwaith yn ystod gwyliau ysgol hefyd fel ei bod hi'n cael treulio amser gyda'i phlentyn.

3.29 Dywedodd ambell i unigolyn bod y cyfleusterau gofal plant yn cau am ran o wyliau haf yr ysgolion, oedd yn ei gwneud hi'n anos fyth trefnu gofal plant.

*Thema: Y Cynnig Gofal Plant*

3.30 Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru'n darparu hyd at 30 awr o addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth ar gyfer pobl sy'n gweithio sy'n rhieni ar blant tair a phedair oed, am 48 wythnos o'r flwyddyn. Mae hyn wedi bod ar gael ar draws Cymru ers 2019 yn dilyn cyflwyniad graddol ar draws gwahanol rannau o Gymru ers Medi 2017[21]. Fodd bynnag, nid oedd y Cynnig Gofal Plant yn nodwedd arbennig o amlwg o'n sgyrsiau â chyfranogwyr carfan 2, a hynny'n rhannol am taw cwta traean (15) o'r rhai a gafodd gyfweliadau oedd â phlant yn y grŵp oedran targed o dair a phedair oed, a dim ond tri o bob pump (naw) o'r cyfranogwyr hynny oedd wedi symud i mewn i waith. Roedd rhai o'r bobl oedd â phlant yn y grŵp oedran yma ac a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth wedi manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, tra bod eraill yn cyfyngu ar eu horiau gwaith, yn dibynnu ar berthnasau i helpu i ofalu am eu plant, neu'n talu am ofal plant, er eu bod yn hawlio credydau treth i wneud hynny. Lle'r oedd y cyfranogwyr wedi manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, roedd hi'n glir bod hynny wedi bod yn allweddol wrth eu galluogi i symud i mewn i waith.

ASTUDIAETH ACHOS: Bronwen

[21] Cynhaliwyd y cynllun peilot ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a rhai wardiau dethol yn Rhondda Cynon Taf ac Abertawe i gychwyn, wedyn cafodd ei ymestyn i Gonwy, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam a wardiau dethol yng Nghaerdydd flwyddyn yn ddiweddarach.

Mae Bronwen yn 24 oed ac yn fam sengl i blentyn tair oed. Roedd hi wedi cwblhau gradd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar ond wedi beichiogi yn ystod ei hastudiaethau ac erioed wedi llwyddo i ddod o hyd i waith. Er ei bod hi'n awyddus i weithio ym maes gofal plant, roedd y Ganolfan Byd Gwaith wedi ei chynghori (yn 2017) y byddai'n 'well allan yn cofrestru'n ddi-waith' nes bod ei phlentyn yn mynd i'r ysgol. Cafodd y cyngor yma ei ategu gan staff meithrinfa, a ddywedodd wrthi y byddai costau uchel gofal plant yn drech na'r incwm y byddai'n ei gael o weithio mewn lleoliad gofal plant.

Trodd Bronwen at PaCE yn y gobaith o gael cymorth gyda chostau gofal plant. O ystyried ei chymhwyster a'u huchelgais i weithio, awgrymodd y cynghorydd y dylai gyflawni lleoliad mewn ysgol gynradd (yn hytrach na meithrinfa), gan weithio fel cynorthwyydd dysgu gwirfoddol. Bu modd i PaCE dalu cost lle mewn crèche ar gyfer ei phlentyn wrth iddi gyflawni'r lleoliad hwn, er y dywedodd Bronwen y bu'n dipyn o her dod o hyd i feithrinfa a oedd yn fodlon cymryd ei phlentyn am ddau ddiwrnod yr wythnos am gyfnod cymharol fyr.

Cynigiwyd swydd barhaol i Bronwen fel cynorthwyydd dosbarth yn yr ysgol ar ddiwedd cyfnod ei lleoliad. Erbyn hynny, roedd ei phlentyn yn dair oed ac wedi dechrau mynd i'r feithrinfa am ddwy awr a hanner y dydd. Ond roedd y swydd a gynigiwyd i Bronwen yn un amser-llawn ac felly roedd angen iddi ddod o hyd i ofal cofleidiol ar gyfer ei phlentyn.

Roedd y crèche y bu Bronwen yn ei ddefnyddio yn ystod ei lleoliad gwaith wedi dod yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant yn ddiweddar, a bu modd iddi drefnu i'w phlentyn barhau i fynd i'r crèche ar ôl y feithrinfa. Y peth hanfodol oedd bod y crèche yn cynnig gwasanaeth casglu, a oedd yn golygu nad oedd angen i Bronwen boeni am gludo'i phlentyn rhwng y ddau le yn ystod y diwrnod gwaith.

Mae enillion Bronwen yn dal i fod yn weddol isel ar hyn o bryd, a heb y gofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth a oedd ar gael iddi trwy'r Cynnig Gofal Plant, byddai'n anodd iddi ymdopi â'r gost o £400 y mis, hyd yn oed gyda'r elfen credydau treth gofal plant ar lefel o 70 y cant. Roedd Bronwen wir yn gweld y Cynnig Gofal Plant fel tro ar fyd iddi, ac roedd hi'n

rhywbeth a oedd wedi galluogi iddi gychwyn siwrnai tuag at ei huchelgais tymor hir o ddilyn gyrfa fel athrawes.

3.31 Mae hi'n glir bod y Cynnig Gofal Plant yn gweithio i rai: yn wir, dywedodd un o'r bobl a siaradodd â ni ei bod hi wrthi'n symud i feithrinfa arall er mwyn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Ond mae hi'n dal i fod yn anodd i eraill ddod o hyd i atebion ymarferol o ran gofal plant. Fel yr oedd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau a Deilliannau'n ei nodi, mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth ddod o hyd i ofal plant addas a fforddiadwy'n waeth i unigolion â phlant sy'n dioddef o broblemau iechyd neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i unigolion â sawl plentyn o wahanol oedrannau.

ASTUDIAETH ACHOS: Carys

Mae gan Carys bedwar o blant dibynnol, un yn wyth oed, un yn saith oed ac efeilliaid dwy oed. Roedd hi wedi bod yn gweithio i'r yr un cwmni ers 11 mlynedd nes geni ei gefeilliaid ac roedd hi wrth ei bodd ar ei gwaith. Roedd swydd Carys yn cynnwys gwaith sifft, ac roedd patrymau'r sifftiau weithiau'n amrywio o un wythnos i'r nesaf. Roedd hi'n gallu ymdopi â'r patrwm gwaith yma pan oedd dau blentyn ganddi am y bu modd iddi fanteisio ar gymorth ei theulu a thad y plant.

Pan ddychwelodd Carys i'r gwaith ar ôl cael yr efeilliaid, defnyddiodd gyfuniad o'i phartner, perthnasau eraill a meithrinfa leol i ofalu am yr efeilliaid. Ond ymhen ychydig, ffeindiodd hi'n amhosibl cydbwyso gofynion gwaith sifft a chostau gofal plant (£81 y dydd gros o lwfansau treth) a bu rhaid iddi roi'r gorau i'w swydd. Fodd bynnag, roedd Carys yn dal i fod yn awyddus i weithio a throdd at PaCE am gymorth i ddod o hyd i waith ac ateb gofal plant a fyddai'n cyd-fynd yn well â gofynion ei theulu.

Erbyn hyn, mae Carys yn cydnabod y sialens sy'n ei hwynebu wrth gydbwyso a fforddio trefniadau gofal i bedwar plentyn dan ddeg oed, hyd yn oed os yw'n dod o hyd i swydd nad yw'n golygu gweithio sifftiau. Mae hi'n ystyried hunangyflogaeth ar hyn o bryd, ond mae'n deall y bydd hi'n cymryd amser i ddatblygu syniad busnes, a'i bod yn bosibl y bydd angen

iddi aros nes bod ei gefeilliaid yn ddigon hen i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

Mae Carys a'i chynghorydd wedi cytuno 'gohirio' ei chysylltiad â PaCE nes bod ganddi ragolygon realistig o symud i swydd arall neu gychwyn hunangyflogaeth.

3.32 Fel a nodwyd uchod, prin y cyfeiriodd y rhai a gafodd gyfweliadau at y Cynnig Gofal Plant neu ofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth, sy'n awgrymu nad yw ymwybyddiaeth rheini am y cyfleoedd sydd ynghlwm wrth hyn yn arbennig o uchel. Yn ddi-os, mae addysgu rhieni am y Cynnig Gofal Plant (lle bo hynny'n briodol) yn rhan o rôl cynghorwyr PaCE, ac mae'r Cynnig Gofal Plant yn ychwanegiad pwysig at yr amrywiaeth o gymorth y gall cynghorwyr gyfeirio cyfranogwyr ati.

# 4. Y Gwahaniaeth a Wnaeth PaCE a'r Achos Gwrthffeithiol

### Cyflwyniad

4.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried y gwahaniaeth a wnaeth PaCE i’r unigolion a gymerodd ran yn y rhaglen. Rydyn ni'n archwilio sut mae PaCE wedi helpu cyfranogwyr ac yn ystyried eu safbwyntiau o ran beth fyddai wedi digwydd iddynt yn niffyg cymorth PaCE.

### Deilliannau Swyddi

4.2 Yn ystod ein gwaith maes, fe ofynnon ni i'r cyfranogwyr (carfan 1 a 2) a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth ddweud pa mor debygol y byddent wedi bod o wneud hynny yn niffyg cymorth PaCE. Roedd ychydig dros draean (35 y cant) yn teimlo bod y cymorth a gawsant wedi bod yn allweddol i'w datblygiad, roedd chwarter (25 y cant) yn teimlo ei fod wedi gwneud cyfraniad pwysig ochr yn ochr â ffactorau eraill, ac roedd dau o bob pump (40 y cant) yn teimlo bod PaCE yn rhywbeth mwy ymylol a wnaeth wahaniaeth bach yn unig wrth iddynt ddod o hyd i waith.

4.3 Roedd yr unigolion a oedd yn teimlo eu bod yn annhebygol o fod wedi symud i mewn i waith heb PaCE yn dueddol o weld y cymorth a'r anogaeth a gawsant gan eu cynghorwyr fel rhywbeth arbennig o werthfawr. Soniodd yr unigolion am y cynghorwyr yn 'gwrando' arnynt, yn 'deall' y materion oedd yn eu hwynebu, yn 'rhoi cefnogaeth' ac yn eu helpu nhw i weld bod ffyrdd o amgylch problemau, nid lleiaf sut i ffeindio, trefnu a thalu am ofal plant (lle bo angen) wrth iddynt hyfforddi neu weithio. Er bod y niferoedd a gafodd gyfweliadau'n gyfyngedig, roedd yna ryw awgrym bod cymorth y cynghorwyr wrth ddeall a chyrchu'r 'system' gofal plant yn arbennig o bwysig i rieni ifancach ag un plentyn e.e. unigolion heb fawr o brofiad o ofal plant neu addysg y blynyddoedd cynnar.

ASTUDIAETH ACHOS: David

Mae David yn dad sengl i blentyn dwy oed. Roedd e wedi bod yn gweithio dramor ers sawl blwyddyn, ond dychwelodd i Gymru gyda'i blentyn yn dilyn chwalfa ei berthynas. Ar ôl dychwelyd, cafodd anawsterau hirfaith wrth geisio canfod a oedd hawl ganddo gael cymorth lles, a dywedodd na fu'r Ganolfan Byd Gwaith o unrhyw gymorth iddo.

Er taw dyhead David oedd astudio i ennill gradd yn y tymor hwy, roedd yn cydnabod bod angen iddo ddod o hyd i waith i'w gynnal ei hun a'i blentyn yn ariannol yn y tymor byr. Disgrifiodd ei hun fel rhywun oedd yn 'awchu i weithio' ac roedd wedi dod o hyd i nifer o gyrsiau hyfforddi a fyddai'n ei gynorthwyo i gael gwaith. Fodd bynnag, nid oedd budd-daliadau lles ar gael iddo, ac nid oedd yn gwybod sut y gallai dalu am y gofal plant fyddai ei angen arno fel y gallai ddilyn y cyrsiau roedd wedi eu clustnodi a chwilio am waith wedyn.

Daeth David ar draws cynghorydd PaCE yn ystod ymweliad â'r Ganolfan Byd Gwaith, ac roedd yn dipyn o ryddhad iddo fod y cynghorydd yn fodlon gwrando a helpu. Trefnodd y cynghorydd gyllid PaCE i dalu am ofal plant, ac aeth gyda David i'r Ganolfan Byd Gwaith i drafod pecyn o gyllid i dalu am y cyrsiau roedd David wedi eu clustnodi. Wedyn ffeindiodd David ofalwr plant lleol a chwblhaodd ddau gwrs, gan ennill cymwysterau lefel 2 a lefel 4 oedd yn berthnasol i ddwy swydd wahanol yr oedd ganddo mewn golwg.

Ar ôl ennill y cymwysterau, ymgeisiodd David am ddwy swydd ran-amser, a oedd yn darparu 16 awr o waith â thâl iddo. Pan gymerodd y rolau hyn, dywedodd y cynghorydd wrtho am elfen costau gofal plant y Credyd Cynhwysol a oedd yn gwneud costau gofal plant yn fforddiadwy. Mae David yn rhag-weld y bydd yn cynyddu ei oriau i weithio amser llawn pan fydd ei blentyn yn mynd i'r ysgol feithrin.

Roedd David yn bendant bod y cynghorydd PaCE wedi 'newid [ei] fywyd er gwell ... aeth allan o'i ffordd i helpu', yn wahanol i'r Ganolfan Byd Gwaith, a oedd yn 'syndod o dda i ddim’. Ychwanegodd, heb PaCE, y byddai wedi bod

yn 'byw ar y dôl yn gofalu am fy mab heb unrhyw gymorth ... dwi wrth fy modd yn treulio amser gydag e ... ond dwi am fod yn gallu ei gynnal hefyd'.

4.4 Eto, wrth rybuddio pwyll oherwydd niferoedd y bobl a gafodd gyfweliadau, diddorol oedd nodi bod cyfran uwch o ddynion na menywod wedi dweud eu bod yn annhebygol o fod wedi symud i mewn i gyflogaeth heb gymorth PaCE. Dadleuwyd ei bod hi'n anos yn ddiwylliannol i ddynion gyrchu'r mathau o rwydweithiau cymdeithasol sy'n cynorthwyo mamau sengl, ac felly bod y cymorth sydd ar gael trwy PaCE yn bwysicach eto fyth iddyn nhw.

4.5 Roedd y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn debygol o fod wedi dod o hyd i waith hyd yn oed heb gymorth PaCE yn dueddol o fod wedi cael profiad gwaith blaenorol, ac o fod wedi bod yn chwilio am waith cyn dod i gysylltiad â PaCE am y tro cyntaf. Roedd rhai yn gallu elwa ar gysylltiadau personol i ddod o hyd i waith, er enghraifft gyda chyn-gyflogwyr, trwy fynd at gyflogwyr roedden nhw'n gyfarwydd â nhw neu trwy ffrindiau oedd â chysylltiadau â chyflogwyr, ac roedd hi'n glir bod cysylltiad ambell un o'r unigolion â PaCE wedi bod yn gymharol 'ysgafn'. Ond roedd hi'n glir hefyd bod pobl eraill nad oeddent yn priodoli eu llwyddiant wrth ddod o hyd i waith i PaCE i raddau helaeth wedi cael lefel resymol o gymorth gan y cynghorwyr, er enghraifft wrth gywreinio CVs, wrth chwilio am swyddi ac wrth ddeall credydau treth gwaith. Yn wir, soniodd rai o'r unigolion hyn am ba mor werthfawr roedd cymorth y cynghorydd wedi bod iddyn nhw, a sut roedd wedi eu helpu nhw ar lefel bersonol, er enghraifft i deimlo'n fwy 'hyderus' ac wrth deimlo eu bod yn gallu 'rhoi cynnig ar bethau'.

ASTUDIAETH ACHOS: Eve

Mae Eve yn rhiant sengl i ddau blentyn, un cyn oedran ysgol ac un oed cynradd. Mae hi wedi gweithio gydol ei bywyd, ond rhoddodd y gorau i'w swydd ar ôl gwahanu wrth ei phartner yn fuan ar ôl genedigaeth ei hail blentyn. Roedd hi wastad wedi bwriadu dychwelyd i'r gwaith pan fyddai ei phlentyn lleiaf yn mynd i'r feithrinfa/ysgol, ac roedd hi wedi bod yn hyderus y byddai'n gallu ffeindio gwaith pan fyddai'n barod.

Hyfforddwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith fu’n gyfrifol am gyflwyno Eve i'w chynghorydd PaCE. Roedd hi eisoes wedi dechrau chwilio am waith, ac yn wir, roedd ei chyn-gyflogwr wedi cynnig swydd iddi, ond nid oedd modd iddi gymryd y swydd am y byddai wedi gorfod gweithio amser llawn gryn bellter o'i chartref. Roedd Eve yn glir fod angen iddi ddod o hyd i swydd ran-amser yn ddigon agos at ei chartref fel y gallai fynd â'i phlant i'r ysgol/meithrinfa a'u casglu ar ddiwedd y dydd.

Gweithiodd y cynghorydd PaCE gydag Eve i ddiweddaru a chywreinio ei CV, i chwilio am swyddi ar-lein, ac i baratoi ar gyfer cyfweliadau. Roedd Eve wedi ei phlesio'n arbennig gan gymaint yn well roedd y cynghorydd wedi dangos ei sgiliau a'i phrofiad ar ei CV diwygiedig. Dywedodd y cynghorydd wrth Eve am y Cynnig Gofal Plant hefyd, a gwnaeth Gyfrifiad Gwell ei Byd gyda hi fel y byddai'n gwybod pa effaith y byddai dychwelyd i'r gwaith yn ei chael ar ei sefyllfa ariannol.

Ffeindiodd Eve swydd mewn siop leol ar ôl cerdded i mewn gyda'i CV a gofyn i'r perchennog a oedd unrhyw waith ar gael. Roedd hi'n mwynhau ei swydd newydd, yn gweithio 16 awr yr wythnos ac yn ei gweld ei hun yn aros yn y swydd yn y dyfodol rhagweladwy.

4.6 Hyd yn oed lle'r oedd unigolion yn meddwl y gallent fod wedi cael cyflogaeth heb gymorth PaCE, roedden nhw'n derbyn y byddai wedi cymryd mwy o amser yn fwy na thebyg, a hynny'n rhannol am nad oedd ganddynt wybodaeth y cynghorwyr o ran ble neu sut i ymgeisio neu am fod y cynghorydd wedi cyflymu pethau trwy gynnal cymhelliant yr unigolion a'u cadw 'ar y trywydd iawn'.

4.7 Ffactor arall y gellir priodoli datblygiad unigolion i mewn i waith iddo efallai yw'r ffaith fod eu plentyn lleiaf wedi troi'n bump oed. Fel a nodwyd yn yr adroddiad Prosesau ac Allbwn, gall y ffaith fod plentyn yn troi'n bump oed fod yn gatalydd i unigolion feddwl am waith am fod eu hawl i Gymhorthdal Incwm yn dod i ben (sy'n golygu bod angen iddynt symud ymlaen i'r Lwfans Ceisio Gwaith a/neu'r Credyd Cynhwysol) ac am fod gweld eu plentyn lleiaf yn dechrau addysg amser llawn yn gyfle i wneud rhywbeth cadarnhaol drostyn nhw eu hunain.

4.8 Diddorol yw nodi bod cyfran uwch o gyfranogwyr carfan 1 yn teimlo y byddent wedi dod o hyd i waith dim ots a oeddent wedi cysylltu â PaCE ai peidio erbyn iddynt gael ail gyfweliad flwyddyn yn ddiweddarach. Gallai hyn awgrymu bod canfyddiadau unigolion am bwysigrwydd PaCE wrth eu cynorthwyo i symud i mewn i gyflogaeth yn pylu dros amser, a hynny o bosibl am eu bod nhw'n magu hyder ynddyn nhw eu hunain ac yn eu gweld eu hunain yn gynyddol fel pobl sy'n gweithio. Gallai fod yn ddyledus hefyd i'r ffaith fod unigolion yn anghofio'r argraff a wnaeth cymorth PaCE arnynt ar y pryd.

ASTUDIAETH ACHOS: Fran

Mae Fran yn fam briod i ddau blentyn, y naill yn saith oed a'r llall yn dair oed. Roedd ganddi gymhwyster lefel 3 ac roedd hi wedi treulio 15 mlynedd yn y byd arlwyaeth cyn rhoi'r gorau i'w swydd i fod yn fam amser llawn.

Roedd Fran wedi bod yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith, ond roedd hi'n hoffi'r syniad o symud i mewn i rôl swyddfa 9-5 yn hytrach na'r hyn yr oedd hi wedi bod yn eu wneud o'r blaen, a oedd weithiau'n cynnwys gweithio oriau anghymdeithasol. Fodd bynnag, roedd Fran yn teimlo ei bod wedi colli hyder ar ôl treulio ychydig flynyddoedd fel mam ar yr aelwyd, ac roedd hi'n poeni am gost a logisteg gofal plant.

Gwrandawodd y cynghorydd PaCE ar ei gobeithion a'i phryderon ac roedd Fran yn teimlo ei bod hi'n ‘un da am dawelu meddwl rhywun'. Gyda'i gilydd, fe weithion nhw ar CV Fran, ac ar gais am leoliad gwaith yn y GIG. Trefnodd y cynghorydd becyn o gyllid PaCE hefyd i dalu costau gofal plant Fran wrth iddi gyflawni ei lleoliad gwaith.

Cwblhaodd Fran y lleoliad gwaith, a chynigiwyd swydd weinyddol iddi yn y GIG. Er mwyn galluogi iddi weithio, aeth ei phlentyn lleiaf i feithrinfa am ddau ddiwrnod yr wythnos tra bod ei phlentyn hynaf yn yr ysgol. Cwtogodd gŵr Fran ar ei oriau gwaith hefyd er mwyn ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldebau gofal plant. Yn y cyfweliad cyntaf, dywedodd Fran 'heblaw am PaCE, fyddwn i ddim yma' yn gwneud swydd roedd hi wrth ei bodd arni.

Llewyrchodd Fran yn ei swydd, ac erbyn y cyfweliad dilynol, roedd hi i'w weld yn fwy hyderus ac roedd hi'n amlwg ei bod hi'n uchelgeisiol i

ddatblygu ei gyrfa. Roedd hi wedi cael dyrchafiad yn ddiweddar ac roedd hi'n priodoli ei llwyddiant i 'wybod pa lwybr roedd am ei gymryd' a gwaith caled. Er ei bod hi'n cydnabod y cymorth yr oedd hi wedi ei gael trwy PaCE, nid oedd hi'n priodoli ei swydd bresennol na'i dyrchafiad i'r cymorth yna ar unrhyw lefel debyg i'r hyn y gwnaeth flwyddyn ynghynt.

*Thema: cynaliadwyedd cyflogaeth*

4.9 Er y gellid bod wedi priodoli deilliannau swyddi o leiaf yn rhannol i PaCE, nid oeddent yn cael eu cynnal bob tro. Ar draws y ddwy garfan, nid oedd bron i un o bob wyth o'r bobl a gafodd gyfweliadau â ni yn y swyddi yr oeddent wedi eu cymryd wrth ymadael â PaCE mwyach. Nodwyd eisoes bod pump o gyfranogwyr carfan 1 wedi symud i waith arall am iddynt golli eu swyddi, am nad oeddent yn cael nifer yr oriau gwaith a addawyd iddynt, neu oherwydd perthnasau anodd â rheolwyr neu gydweithwyr. Roedd cyfranogwyr Carfan 2 wedi wynebu materion tebyg, yn ogystal ag anhawster wrth ymdopi â gwaith sifft. Roedd hi'n glir hefyd bod gan rai unigolion ormod yn digwydd yn eu bywydau i'w galluogi i gynnal swydd ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill.

ASTUDIAETH ACHOS: Gwen

Mae Gwen yn fam i ddau blentyn, y naill yn naw a'r llall yn bump oed. Roedd hi wedi gweithio am y rhan fwyaf o’i bywyd fel oedolyn, gan gynnwys ar ôl geni ei phlant. Rhoddodd y gorau i'w swydd amser llawn wrth fynd trwy ysgariad, a'r bwriad oedd iddi ddod o hyd i rywbeth mwy hydrin wrth iddi addasu i'w sefyllfa newydd.

Roedd Gwen yn chwilio'n ymarferol am waith pan ddaeth i gysylltiad â PaCE am y tro cyntaf. Roedd hi'n teimlo taw gofal plant oedd ei hunig rwystr i waith, ond llwyddodd y cynghorydd i'w chynorthwyo i gywreinio ei CV, a'i pharatoi ar gyfer y mathau o gwestiynau y gallai eu hwynebu mewn cyfweliad. Roedd y cynghorydd wedi trafod gofal plant gyda hi hefyd, ond roedd gan Gwen brofiad o ddarparydd gofal plant eisoes a threfnodd y ddarpariaeth ei hun.

Roedd Gwen yn teimlo bod yr ymgynghorydd yn deall ei sefyllfa am ei bod wedi bod mewn sefyllfa debyg ei hun. Llwyddodd y cynghorydd i dawelu

meddwl Gwen ei bod hi'n gwneud y peth iawn wrth chwilio am waith rhan-amser hefyd.

Er iddi gytuno â'r cynghorydd y dylai chwilio am waith rhan-amser, gwnaeth Gwen  gais am swydd amser llawn yn agos at ei chartref a chynigiwyd y swydd iddi. Roedd hi'n teimlo y byddai hyn yn ymarferol am fod y swydd o fewn pellter cerdded i'w chartref ac am iddi ddod o hyd i ofal plant yn lleol.

Fodd bynnag, ni fu'r peth yn llwyddiant. Ffeindiodd Gwen bod y straen o fynd trwy ysgariad, cychwyn swydd newydd a bod gyda chydweithwyr nad oedd hi'n eu hadnabod yn ddigon da i droi atynt am gymorth, yn ormod. Roedd hi'n teimlo nad oedd unrhyw opsiwn iddi ond rhoi'r gorau i'r swydd.

Roedd Gwen yn cydnabod ei bod wedi cymryd gormod ar ei hysgwyddau a'i gobaith oedd y gallai ddychwelyd at y cynghorydd i gael cymorth i ddod o hyd i swydd arall ymhen ychydig fisoedd.

**Symud i mewn i Addysg/Hyfforddiant**

4.10 Nifer cymharol fach o unigolion yn unig oedd wedi dychwelyd i addysg neu hyfforddiant o ganlyniad i gymryd rhan yn PaCE. Er na ellir cyffredinoli’r peth o gyn lleied o esiamplau, mae ein gwaith maes yn awgrymu bod cynghorwyr PaCE wedi chwarae rhan wrth alluogi unigolion i ailgysylltu ag addysg neu hyfforddiant trwy gymysgedd o’u:

- Cynorthwyo i ddewis rhwng cyrsiau.
- Hysbysu am brentisiaethau posibl.
- Cynorthwyo i lenwi ceisiadau i golegau a cheisiadau am gyllid i fyfyrwyr.
- Cynorthwyo i ddiogelu lle ym meithrinfeydd y colegau ar gyfer eu plant.

4.11 Roedd cyfranogwyr unigol yn teimlo, pe na bai eu cynghorwyr wedi eu cynorthwyo i gychwyn cyrsiau y byddent wedi cymryd swyddi llai ymestynnol â llai o ragolygon na'r rhai yr oeddent yn gobeithio eu diogelu yn sgil ennill cymwysterau penodol yn fwy na thebyg.

ASTUDIAETH ACHOS: Heidi

Mae Heidi yn 25 oed ac yn fam sengl i ddau o blant. Mae hi wedi dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl. Cwblhaodd gwrs lefel 2 pan oedd yn iau, ac roedd hi wedi gweithio yn y sector croeso rhwng genedigaethau ei phlant. Roedd Heidi'n sylweddoli na fyddai dychwelyd i'r sector croeso yn caniatáu iddi weithio oriau oedd yn cyd-fynd â gofynion ei theulu, ac felly roedd hi'n awyddus i ailhyfforddi i'w galluogi i ddod o hyd i swydd 9-5 pan fyddai ei phlentyn lleiaf yn mynd i'r ysgol.

Roedd Heidi wedi gweld dau gwrs coleg posibl a fyddai'n galluogi iddi ennill cymwysterau oedd yn berthnasol i'r sector adeiladu. Ond nid oedd fawr o syniad ganddi sut i fynd ati i drefnu gofal plant a rheoli cyllid y teulu petai'n cychwyn cwrs.

Cafodd Heidi ei chyfeirio at PaCE gan ei hyfforddwr gwaith o'r Ganolfan Byd Gwaith, a chynorthwyodd y cynghorydd hi i ddewis rhwng y cyrsiau roedd yn eu hystyried, i wneud cais am y cwrs dethol a gwneud cais am gyllid Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i'w chynorthwyo gyda chostau'r adnoddau dysgu. Rhoddodd y cynghorydd gymorth i Heidi ddeall goblygiadau ariannol dilyn prentisiaeth yn hytrach na chwrs amser llawn hefyd. Helpodd y cynghorydd Heidi i drefnu gofal plant ym meithrinfa'r coleg ar gyfer ei phlentyn lleiaf ac i ddod o hyd i gyllid i dalu am ofal cofleidiol ar gyfer y plentyn hŷn yn ei ysgol, a oedd yn hanfodol.

Cwblhaodd Heidi gwrs lefel 2 i gychwyn, wedyn symudodd ymlaen i gwrs lefel 3. Roedd hi newydd gwblhau’r cwrs, gan ennill gwobr 'myfyriwr y flwyddyn' at y fargen. Roedd hi'n teimlo ei bod hi'n annhebygol iawn y byddai wedi cychwyn yr hyfforddiant heblaw am fewnbwn y cynghorydd Dywedodd y byddai wedi gwneud 'fawr ddim' nes i'w phlentyn lleiaf droi'n bump oed, a byddai wedi cymryd unrhyw hen swydd 'dim ond i gael y Ganolfan Byd Gwaith oddi ar fy nghefn'. Erbyn hyn mae Heidi'n chwilio am waith medrus yn y sector adeiladu.

### Cymwysterau neu Ardystiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith a Gyflawnwyd

4.12 Eto, byddai cronfa ddata'r rhaglen yn awgrymu taw cyfran fechan yn unig o'r cyfranogwyr oedd wedi ennill cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith o ganlyniad i gymryd rhan yn PaCE. Fodd bynnag, roedd ein gwaith maes yn dangos bod PaCE wedi chwarae rhan allweddol wrth alluogi rhai cyfranogwyr i weithio tuag at, a chyflawni cymwysterau a oedd yn berthnasol i'w huchelgeisiau o ran gwaith.

ASTUDIAETH ACHOS: Iona

Mae Iona'n fam briod a chanddi ddau blentyn sy'n dair a chwech oed. Roedd hi wedi bod yn gweithio mewn swyddi adwerthu lefel isel cyn cael ei phlant, ond roedd hi wedi penderfynu bod yn fam ar yr aelwyd nes bod ei phlentyn lleiaf yn mynd i'r ysgol.

Roedd Iona'n gwirfoddoli yn y cylch meithrin yr oedd ei phlentyn lleiaf yn ei fynychu pan oedd ei phlentyn hŷn yn yr ysgol. Roedd hi wir yn mwynhau gwirfoddoli, a dechreuodd feddwl yr hoffai weithio gyda phlant. Ond roedd hi'n sylweddoli nad oedd ganddi'r cymwysterau oedd ei hangen arni, ac roedd hi'n glir 'nad oedd unrhyw fodd yn y byd' y gallai fforddio talu am hyfforddiant a fyddai'n ei galluogi i ennill cymhwyster o'r fath.

Awgrymodd reolwr yn y sefydliad oedd yn cynnal y cylch meithrin lle'r oedd Iona'n gwirfoddoli y gallai ystyried dilyn cwrs CACHE lefel 3. Roedd y cwrs, a fyddai'n cael ei ariannu gan y sefydliad sy'n cynnal nifer o feithrinfeydd/cylchoedd meithrin, yn cynnwys dilyn cyfres o fodiwlau wrth gael profiad gwaith digyflog yng nghyfleusterau'r sefydliad. Roedd hi'n falch o'r cynnig, ond yn cydnabod y byddai angen iddi wneud trefniadau ar gyfer ei phlentyn lleiaf wrth iddi ddilyn yr hyfforddiant (ar ffurf gweithdai misol) a'r lleoliad gwaith digyflog cysylltiedig. Eto, oedd hyn yn rhywbeth na allai Iona fod wedi ei fforddio ei hun.

Dywedodd rheolwr y cylch meithrin a oedd wedi awgrymu'r hyfforddiant i Iona wrthi am PaCE hefyd. Daeth Iona i weld y cynghorydd ac roedd hi'n glir iawn ynghylch y cymorth oedd ei angen arni: roedd hi eisoes wedi cael lle i'w

phlentyn mewn dwy feithrinfa ar wahân: y naill am dri diwrnod yr wythnos, a'r llall (mewn cyfleuster cyfrwng Cymraeg) am y ddau ddiwrnod arall.

Roedd Iona'n nesáu at ddiwedd ei chwrs ac roedd hi'n hyderus y byddai'n llwyddo. Nododd bod cymhwyster 'lefel 3 yn agor llawer o ddrysau' mewn lleoliadau meithrin, ysgolion ac mewn mannau eraill, ac roedd hi'n teimlo bod y ffaith ei bod wedi dilyn elfennau o'r cwrs yn Gymraeg yn rhoi mantais iddi dros bobl eraill â'r un cymhwyster. Bwriad Iona oedd chwilio am waith o fis Medi 2019 ymlaen, gan fanteisio ar y Cynnig Gofal plant ar gyfer gofal ei phlentyn lleiaf.

**Deilliannau profiad gwaith/gwirfoddoli**

4.13 Mae'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu taw cymharol ychydig o gyfranogwyr a gyflawnodd leoliadau gwaith neu wirfoddoli, er, fel a nodwyd yn y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod cyfleoedd i wirfoddoli'n gwneud gwahaniaeth go iawn i rai, gydag unigolion yn sôn yn benodol am ddatblygu sgiliau a magu hyder.

ASTUDIAETH ACHOS: Keith

Gŵr gweddw yw Keith. Mae'n dad i ddau o blant dibynnol a phlant mewn oed sy'n byw yn annibynnol. Roedd Keith wedi gweithio gydol ei oes (mewn ffatrïoedd yn bennaf), ond bu rhaid iddo roi'r gorau i'w waith i ofalu am ei wraig yn ystod ei salwch, a'u plant. Bu farw gwraig Keith ac roedd e wedi penderfynu aros yn rhiant ar yr aelwyd nes i'w blentyn lleiaf nesáu at bump oed.

Wrth i'r ferch ddod i oedran ysgol, roedd Keith yn teimlo ei fod 'eisiau gwneud rhywbeth' gan ychwanegu nad oedd am i'w blant ei 'weld yn eistedd yma'n gwneud dim'. Ond roedd yn cydnabod y gallai fod yn amhriodol iddo ddychwelyd i'r math o waith roedd wedi bod yn ei wneud am ei fod yn golygu gwaith sifft a gweithio dros nos ar adegau.

Siaradodd â hyfforddwr gwaith o'r Ganolfan Byd Gwaith yr oedd ganddo berthynas da ag ef. Awgrymodd yr hyfforddwr gwaith y gallai Keith ystyried dilyn cwrs gwasanaethau cwsmeriaid a allai olygu lleoliad gwaith digyflog

gyda chwmni adwerthu mawr. Roedd y syniad yn ddeniadol i Keith, ond roedd yn sylweddoli y byddai arno angen cymorth gyda gofal plant i alluogi iddo gymryd rhan.

Cyfeiriodd hyfforddwr gwaith o'r Ganolfan Byd Gwaith Keith at PaCE a rhoddodd y cynghorydd gymorth iddo ddod o hyd i ddarpariaeth gofal plant addas a chael cyllid i dalu amdano. Dywedodd Keith ‘nad oedd unrhyw glem ganddo am ofal plant, oherwydd doedd [e] erioed wedi gorfod ei sortio e ... [roedd e] wastad yn y gwaith pan oedd y plant yn tyfu lan … doedd dim o'i angen e am fod [ei wraig ymadawedig] wastad yma i ofalu am y plant’.

Roedd Keith yn mwynhau'r lleoliad gwaith ,ac roedd hi'n dipyn o ryddhad iddo ei bod hi'n rhywbeth y gallai ymdopi ag ef ar ôl 'gweithio mewn ffatri ers dros 20 mlynedd'. Dywedodd ei fod yn mwynhau cwrdd â phobl gan ychwanegu ei bod hi'n well o lawer na 'bod yn y tŷ ar [ei ben ei] hun ... heb weld neb'. Roedd e'n gobeithio'n fawr y byddai’r lleoliad yn arwain at swydd.

4.14 Mae hi'n werth nodi hefyd bod yr astudiaeth achos yma'n esiampl ragorol o gynghorydd PaCE yn gweithio ochr yn ochr â hyfforddwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith i ddod o hyd i ffordd o gynorthwyo cleient mewn ffordd oedd bron â bod yn ddi-dor, i'r fath raddau bod y cleient yn ei chael hi'n anodd gwybod pwy oedd wedi bod yn gyfrifol am ba elfen o'r cymorth.

# 5. Casgliadau ac Argymhellion

### Cyflwyniad

5.1 Yn y bennod hon rydyn ni'n cyflwyno ein casgliadau a'n argymhellion mewn perthynas â:

- Pherfformiad y rhaglen hyd yn hyn.
- Profiadau'r cyfranogwyr a'r gwahaniaeth a wnaeth PaCE iddynt.
- Priodoli'r deilliannau i PaCE a'r gwrthffeithiol.

### Perfformiad y rhaglen hyd yn hyn

5.2 Ar y cyfan, mae PaCE wedi parhau i gael ei weithredu yn ôl y bwriad, ac mae'r rhaglen wedi codi momentwm pellach dros y flwyddyn ddiwethaf.

5.3 Mae WEFO wedi cydsynio i estyn cyfnod rhaglen PaCE, a bydd y rhaglen yn rhedeg tan Fawrth 2022 bellach. O ganlyniad, diwygiwyd y proffil o ran cysylltiadau a deilliannau, a chodwyd y targedau cyffredinol o ran cysylltiadau a chychwyn swyddi. Cafodd yr holl dargedau deilliant eraill eu diwygio am i lawr yng sgil profiad a'r gwersi a ddysgwyd am anghenion a chymhelliant y cyfranogwyr targed.

5.4 Erbyn Awst 2019, roedd nifer y cysylltiadau wedi syrthio ychydig bach yn brin o'r targedau diwygiedig, ac roedd niferoedd y cysylltiadau'n dal i fod yn gryfach yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol nac eraill. Mae'r darlun yn nhermau cysylltu unigolion â nodweddion gwarchodedig wedi bod yn gymysg, gyda pherfformiad cadarn wrth gysylltu unigolion ag anhwylderau neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ond perfformiad ychydig bach yn wannach wrth gysylltu dynion ac unigolion o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig.

**Argymhelliad 1:**

Dylid ymdrechu i gynyddu niferoedd yr unigolion o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig a gysylltir, fel bod y gyfran o gyfranogwyr o'r cymunedau hyn yn adlewyrchu demograffeg ehangach ardal pob awdurdod lleol. Dylid ymdrechu hefyd i gynyddu niferoedd y tadau sengl sy'n cysylltu â PaCE.

5.5 Wrth ailbroffilio, codwyd y targed gwreiddiol o ran deilliannau swyddi o 20 y cant i 36 y cant drwyddi draw, sy'n adlewyrchu'r perfformiad cadarnach na'r disgwyl a welwyd yn nyddiau cynnar y rhaglen. Ar hyn o bryd, mae'n debyg bod perfformiad o ran deilliannau swyddi'n rhagori ar y targed diwygiedig a bennwyd hyd yn oed, ac mae'n cymharu'n ffafriol iawn â'r gyfradd gyfartalog 23 y cant a welwyd ar draws y blaenoriaethau perthnasol o fewn rhaglenni ESF yng Nghymru o ran deilliannau swyddi[22]. At hynny, byddai ein gwaith maes yn awgrymu hwyrach bod perfformiad cyfredol yn tanddatgan y niferoedd sy'n gweithio go iawn, er nad yw pob un o'r swyddi hyn am yr 16 awr yr wythnos sy'n ofynnol i gyfrif fel deilliant swydd at ddibenion ESF.

5.6 Mae'r gyfran o bobl 16-19 oed sy'n symud i mewn i gyflogaeth yn sylweddol is na chyfartaledd y rhaglen gyfan, er y gellid dadlau bod hynny'n ddisgwyliedig oherwydd nifer o ffactorau:

- Mae diweithdra'n fwy cyffredin ymysg pobl ifanc[23].
- Mae unigolion yn y grŵp oedran yma'n dueddol o fod yn llai cymwysedig ac yn llai tebygol o fod ag unrhyw brofiad o weithio, ac felly mae arnynt angen mwy o gymorth i ennill sgiliau, datblygu eu cyflogadwyedd a ffeindio gwaith.
- Mae pobl 16-19 oed yn fwy tebygol o fod â phlant dan dair oed (yr oedran pan maent yn dod yn gymwys i gael addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant) ac felly mae gofal plant yn debygol o fod yn fwy o her i'r grŵp yma nag i gyfranogwyr PaCE yn gyffredinol.

5.7 Mae yna wahaniaethau o hyd yn y gyfran o gyfranogwyr sy'n symud i mewn swyddi rhwng un ardal a'r llall. Awgrymodd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn ambell i reswm am y gwahaniaethau hyn, ac awgrymodd y 'dylai rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru weithio gyda'r rheolwyr cyflawni a'r cynghorwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y cyfraddau trosi o ran deilliannau swyddi yn yr ardaloedd

[22] OB3 (2017) Papur Adolygu Gwerthusiad  Terfyn Blaenoriaeth Rhaglen Cymru: Cynyddu cyflogaeth a thaclo anweithgarwch. Blaenoriaeth 2 Cydgyfeirio ESF: Blaenoriaeth 1 Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF

[23] 12.6 y cant oedd y gyfradd ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru, o gymharu â chyfradd ddiweithdra o 4.2 y cant ar gyfer y boblogaeth dros 16 oed.

hynny sydd i'w gweld â’r perfformiad ‘cryfaf a'r rhai lleiaf cryf'. Rydyn ni'n credu bod yr achos dros wneud hyn yn parhau.

**Argymhelliad 2:**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'r rheolwyr cyflawni a'r cynghorwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y cyfraddau trosi o ran deilliannau swyddi yn yr ardaloedd hynny sydd i'w gweld â’r perfformiad cryfaf a'r rhai lleiaf cryf. Dylid canolbwyntio'n arbennig ar yr ardaloedd hynny lle mae perfformiad o ran deilliannau swyddi a symud i mewn i addysg/hyfforddiant yn wan ymysg y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, a phobl 16-19 oed yn benodol.

5.8 Mae'r perfformiad yn nhermau cymwysterau a gyflawnwyd wedi bod yn siomedig, tua hanner lefel y targed diwygiedig. Mae hyn yn destun pryder o ystyried bod yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn wedi clustnodi diffyg cymwysterau fel un o'r prif rwystrau i gyflogaeth yr oedd y cyfranogwyr yn eu hwynebu nad yw'n gysylltiedig â gofal plant. Rydyn ni'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad a wnaed yn y Gwerthusiad o Brosesau ac Allbwn, sef y dylid rhyddhau mwy o gyllid i hwyluso hyfforddiant, ac rydym yn cydnabod hwyrach ei bod hi'n rhy fuan disgwyl gweld unrhyw gynnydd nodedig mewn cyflawniad o ran cymwysterau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn pwysleisio pwysigrwydd annog y cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau ac ennill cymwysterau fel ffordd o wella eu rhagolygon o fewn y farchnad lafur. Byddwn ni'n dychwelyd at y mater yma yn argymhelliad 4 isod.

**Profiadau'r cyfranogwyr a'r gwahaniaeth a wnaeth PaCE**

5.9 Cadarnhaodd ail rownd y gwaith maes y canfyddiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn. Fodd bynnag, amlygwyd themâu newydd sy'n helpu i feithrin ein dealltwriaeth am waith ac effeithiau PaCE hefyd.

5.10 Er ei bod hi'n galonogol iawn bod cyfran uwch na'r disgwyl o'r cyfranogwyr wedi cychwyn cyflogaeth ar ôl ymadael â PaCE, ar y cyfan roedd y swyddi a gymerodd yr unigolion yn rhai lefel isel ac yn denu tâl cymharol isel[24]. Roedd agweddau hydredol yr astudiaeth yn dangos hefyd nad yw unigolion o reidrwydd yn aros mewn swyddi o'r mathau hyn am amser hir, gyda rhai yn symud ymlaen o fewn byr o dro am nad oedd y swyddi'n sicr.

5.11 Nid oes amheuaeth fod swyddi lefel isel yn cynnig llwybr nôl i mewn i waith i rai: mae'r rhwystrau i fynediad yn isel, ac felly mae swyddi o'r fath yn fwy agored i bobl heb fawr o brofiad gwaith diweddar neu sydd heb gymwysterau a/neu sgiliau gwaith. Yn ddieithriad, roedd y cyn-gyfranogwyr yn well eu byd o fod yn y gwaith nag yr oeddent o'r blaen, ond mae yna berygl y bydd yr unigolion hyn yn wynebu tlodi parhaus yn y gwaith, neu ddyfodol o symud rhwng swyddi ansicr â chyflogau isel a chyfnodau o ddiweithdra. Er enghraifft dywedodd Darcy a Finch (2017) '*for most low-paid workers, poorly paid positions are not acting as a first rung on the ladder - it is the only rung'*, gyda chwta un o bob pump o gyflogeion yn gwneud cynnydd parhaus allan o waith â chyflog isel [25] dros gyfnod o ddeng mlynedd. Nodwyd bod yna duedd arbennig i fenywod oedd yn gweithio mewn swyddi gwerthu, gwasanaethau cwsmeriaid, llety a gweini bwyd yn grŵp yma fynd yn 'sownd' mewn gwaith â chyflog isel. Cyfeiriodd McKnight et al (2016) hefyd at yrfaoedd cyflog isel lle mae unigolion yn '*cycle between low paid work and unemployment/non-employment*', gyda '*periods of unemployment or employment in low paid jobs [having] a negative effect on individuals' future employment prospects*'[26].

5.12 Mae hi'n bwysig bod pobl gymwys[27] sy'n ei ffeindio'u hunain mewn cylch o fod i mewn ac allan o swyddi'n gallu dychwelyd at PaCE am gymorth pellach yn ôl yr angen, a rhaid canmol rhai cynghorwyr am fod yn agored i gynorthwyo cyfranogwyr sy'n dychwelyd 'am gynnig arall arni' er nad yw'r cynghorwyr hynny'n gallu cofnodi unrhyw ddeilliannau swyddi pellach mewn perthynas â'r

---

[24] Fel y nodwyd yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn
[25] D'Arcy, C. a Finch, D, (2017) The Great Escape? Low pay and progression in the UK's labour market, Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol
[26] McKnight, A., Stewart, K., Himmelweit, S.M. a Palillo, M. (2016) 'Low pay and in-work poverty: preventative measures and preventative approaches', Brwsel, Y Comisiwn Ewropeaidd, t.25
[27] Hwyrach y gall unigolion nad ydynt yn gymwys i gael cymorth PaCE mwyach gyrchu mathau eraill o gymorth e.e. trwy Gymorth Gwaith Cymru

unigolion o dan sylw. Roedd yna dystiolaeth i awgrymu nad yw'r holl gynghorwyr yr un mor barod eu cymwynas yn hynny o beth fodd bynnag, ac mae'n bosibl bod yna gwmpas i sicrhau gwell cysondeb.

**Argymhelliad 3:**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cynghorwyr i sicrhau eglurder ynghylch sut y mae'r Canllawiau Gweithredol yn cael eu dehongli, a chysondeb yn y dulliau a ddefnyddir i ailgysylltu cyfranogwyr sy'n colli eu swyddi o fewn cyfnod byr ar ôl ymadael â PaCE.

5.13 Er y cydnabyddir bod sawl un o'r cyfranogwyr 'eisiau swydd' yn syml iawn, gellid dadlau y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo unigolion i ddatblygu sgiliau ac ennill cymwysterau a fydd yn caniatáu iddynt weithio mewn rolau mwy diogel ac sydd â chyflogau gwell yn ddelfrydol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol am y dangoswyd bod '*employees in low-level occupations … are generally less likely to benefit from training'* a bod *'jobs with little or no formal skills requirements … act as dead ends rather than pathways to development and progression'*[28].

**Argymhelliad 4:**

Dylid gosod mwy o bwyslais ar annog cyfranogwyr heb gymwysterau neu â chymwysterau lefel isel yn unig i gymryd rhan mewn hyfforddiant yn hytrach na, neu ochr yn ochr â, symud i mewn i swyddi nad ydynt yn galw am fawr o sgil. Dylid ystyried hefyd parhau i gynorthwyo unigolion sy'n cychwyn cyflogaeth wrth gyflawni hyfforddiant i gwblhau eu cyrsiau ar ôl dechrau gweithio.

5.14 Wrth gwrs, mae enillion gweddol isel yn gysylltiedig i ryw raddau â nifer yr oriau gwaith y mae'r cyfranogwyr am eu gweithio, ac yn gallu gweithio. Amlygodd ein gwaith maes yn 2019 y ffaith fod cyfran sylweddol o'r bobl hynny a symudodd i mewn i gyflogaeth yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos mewn gwirionedd. Mae'n amlwg bod gweithio llai o oriau'n beth da i rai

[28] Devins, D., Bickerstaffe, T., Mitchell, B. a Halliday, S (2014) Improving Progression in Low-Paid, Low-Skilled Retail, Catering and Care Jobs (t.6)

unigolion, o leiaf yn y tymor byr, a gallai hynny fod yn gam cyntaf iddynt ar yr ysgol gyflogaeth. Mae'r arfer yma'n gyson â pholisi Credyd Cynhwysol Llywodraeth y DU, sydd, i bob pwrpas, yn cefnogi pontio graddol i mewn i waith, trwy leihau taliadau atodol unigolion o dipyn i ben wrth iddynt gynyddu eu horiau ac ennill mwy o arian.

**Argymhelliad 5:**

Dylai Llywodraeth Cymru gofnodi cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith am lai nag 16 awr yr wythnos ochr yn ochr â'r cofnod y mae'n ei gadw eisoes o unigolion yn symud i mewn i waith am 16 awr neu ragor. Er nad yw deilliannau swyddi o lai nag 16 awr yr wythnos yn 'cyfri' at ddibenion ESF, maen nhw'n ddeilliant pwysig, a byddai eu cofnodi'n cynorthwyo i gynnig darlun mwy cyflawn o effeithiau PaCE ar unigolion.

5.15 Roedd hi'n glir bod sawl un o'r rhai a oedd yn symud i mewn i gyflogaeth yn dychwelyd i'r mathau o waith roeddent wedi ei wneud o'r blaen, yn aml gan gymryd llai o gyfrifoldeb ac enillion nag o'r blaen, o leiaf am y tro. Mae hyn i'w gweld yn beth hollol resymegol o ystyried eu cyfrifoldebau gofal plant, ond mae'n bwysig bod unigolion â dyheadau i ddatblygu dros amser yn cael gwneud hynny.

**Argymhelliad 6:**

Dylai'r cynghorwyr sicrhau bod cyfranogwyr sy'n symud i mewn i gyflogaeth yn ymwybodol o wasanaeth Cymru'n Gweithio fel porth i gymorth pellach i ddatblygu eu gyrfaoedd a chael cymorth gyda hyfforddiant.

5.16 Am fod y cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith yn ennill incwm gweddol fach ar y cyfan, maen nhw'n dal i fod yn ddibynnol ar gredydau treth o ryw fath ar ôl pontio. O ganlyniad, mae cymorth y cynghorwyr wrth ffeindio'u ffordd trwy'r system fudd-daliadau (a'r Credyd Cynhwysol yn benodol) yn agwedd bwysig o'r gwasanaeth y mae cynghorwyr PaCE yn ei ddarparu. Mae hi'n hanfodol bod y cynghorwyr yn ddigon gwybodus a hyderus wrth gynghori cleientiaid am faterion budd-daliadau.

**Argymhelliad 7:**
Dylai rheolwyr y rhaglenni sicrhau bod cynghorwyr yn cael hyfforddiant a diweddariadau cyson ar faterion sy'n ymwneud â'r Credyd Cynhwysol a budd-daliadau lles perthnasol eraill ar gyfer pobl sy'n gweithio. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio offeryn y Cyfrifiad Gwell eich Byd.

5.17 Mae cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith yn aml yn dibynnu ar gyfuniad o atebion gofal plant, ac mae hynny'n gallu sbarduno ei broblemau logisteg ei hun. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn gallu bod yn rhan bwysig o'r cymysgedd ar gyfer rhai unigolion, ond mae'n debyg hwyrach nad yw'r cymorth sydd ar gael yn amlwg iawn. O ystyried bod PaCE a'r Cynnig Gofal Plant yn cydategu ei gilydd cystal, mae'n bosibl bod yna rhyw gwmpas i hyrwyddo'r ddau beth yn baralel yn rhan o becyn cydategol o fesurau sydd ar gael i helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith.

**Argymhelliad 8:**
Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn, sef y dylai strategaeth cyfathrebu/marchnata PaCE dargedu negeseuon allweddol ar gyfer gwahanol segmentau o rieni. Yn benodol, dylai negeseuon sy'n targedu rhieni plant sy'n nesáu at dair a phedair oed gyfeirio at y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, a'r rôl y gall y rhain eu chwarae wrth leddfu rhai o'r pryderon sydd gan rieni am les eu plant neu gost gofal plant.

5.18 Bydd gofal plant yn rhwystr allweddol i gyflogaeth i rai rhieni nes eu bod yn gallu cael cymorth gofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth.

**Priodoli deilliannau PaCE a'r gwrthffeithiol**

5.17 Mae ein gwaith maes gyda chyfranogwyr yn awgrymu'n gadarn na fyddai nifer o'r rheiny sydd mewn cyflogaeth yn gweithio heblaw am eu cysylltiad â PaCE yn fwy na thebyg. Er nad PaCE oedd yr unig ffactor a'u darbwyllodd neu a'u galluogodd i wneud hynny, mae hi'n amlwg bod gwahanol agweddau ar y cymorth wedi chwarae eu rhan.

5.18 Roedd y cymorth mentora a ddarparwyd gan gynghorwyr yn amlwg yn ffactor allweddol, yn yr un modd â chymorth cynghorwyr wrth ddeall a ffeindio'u ffordd trwy'r system gofal plant a budd-daliadau yn y gwaith. Ystyrir bod cynghorwyr PaCE yn fwy hygyrch ac empathetig na hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith, ac heb os, mae hyn yn helpu i symud pobl i mewn i waith lle bo dull y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n fwy seiliedig ar gosbi, yn aml yn methu.

5.19 Roedd bron pawb a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth yn cydnabod bod PaCE wedi cyfrannu mewn rhyw fodd at eu datblygiad i gymryd y cam yna. Fodd bynnag, o ofyn iddynt faint o wahaniaeth a wnaeth cymryd rhan yn y rhaglen iddynt, roedd i ba raddau yr oedd yr unigolion yn priodoli eu datblygiad i PaCE yn is nag y byddai'r naratif am eu profiadau o PaCE yn ei awgrymu. Roedd yna dystiolaeth hefyd y gallai canfyddiadau unigolion am bwysigrwydd PaCE i'w datblygiad bylu dros amser.

**Argymhelliad 9:**

Dylai'r tîm ymchwil archwilio ymhellach sut y mae canfyddiadau unigolion am rôl PaCE wrth eu cynorthwyo i mewn i waith yn newid dros amser yn rhan o'r Gwerthusiad o Effaith, Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian a gyflawnir yn 2021. Bydd angen rhoi sylw i'r mater hwn wrth ystyried canfyddiadau Arolwg Cyfranogwyr ESF yn benodol.

5.20 Fel yr oedd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn yn ei ddangos, un o'r ffactorau allweddol a ychwanegodd at y tebygolrwydd y byddai unigolion yn symud i mewn i waith, heblaw am gymorth PaCE, oedd y syniad o newid o Gymhorthdal Incwm i'r Lwfans Ceisio Gwaith pan oedd eu plentyn lleiaf yn troi'n bump oed.

5.21 Er bod y niferoedd yn isel, roedd hi'n amlwg bod cymorth PaCE yn gwneud y gwahaniaeth rhwng rhai cyfranogwyr yn ailgydio mewn addysg neu hyfforddiant, a chwarae â'r syniad heb wneud dim ynghylch y peth. Er nad yw effeithiau tymor hwy penderfyniadau i ddilyn cyrsiau penodol yn glir eto, mae hi'n debygol y bydd cyfranogwyr unigol yn symud i mewn i gyflogaeth sy'n talu'n well ac sy'n fwy cynaliadwy nag y byddent yn ei wneud fel arall.

5.22 Eto, er taw cymedrol yw'r niferoedd, mae'n sicr bod anogaeth cynghorwyr PaCE wedi sbarduno cyfranogwyr i ennill cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith na fyddent wedi llwyddo i'w cael fel arall.